

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD MAWRTH 25 TACHWEDD 2025 10.00 o'r gloch		TUESDAY 25 NOVEMBER 2025 10.00 am	
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM		COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM	
Swyddog Pwyllgor		Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYS ARDYSTIUYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025.

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 9 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 DIWYGIO'R CYFANSODDIAD - RHOI CYMERADWYAETH DERFYNOL I GYFRIFON BLYNYDDOL Y CYNGOR (Tudalennau 19 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

7 MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2, 2025/26 (Tudalennau 25 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

8 ADRODDIAD HUNANASESIAD, PERFFORMIAD A LLESIANT 2024/25 (Tudalennau 43 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

9 MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2, 2025/26 (Tudalennau 105 - 130)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151.

10 MONITRO CYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2025/26 (Tudalennau 131 - 144)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151.

- 11 **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 2, 2025/26**
(Tudalennau 145 - 154)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151.
- 12 **SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2026/27** (Tudalennau 155 - 160)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151.
- 13 **RHAGLEN CYSYLLTU Â GWAITH 2025-2030** (Tudalennau 161 - 244)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.
- 14 **DERBYNIAD O GYNIGION GRANT CYLLID UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU**
(Tudalennau 245 - 252)
Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.
- 15 **ARDOLL YMWELWYR** (Tudalennau 253 - 260)
Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2025

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)
- Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Pennaeth Democratiaeth,
Swyddog Pwyllgor (MEH),
Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT).
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Neville Evans, Dyfed W Jones ac Ieuan Williams
- HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) (ar gyfer eitem 6 ac 8), Glyn Haynes, Kenneth P Hughes ac Aled Morris Jones.
- Rheolwr Sgriwtini (AD) (ar gyfer eitemau 6 ac 8)

Ar ddiwedd y cyfarfod, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Corfforaethol eisiau mynegi ei ddiolch i Mrs Anwen Davies, y Rheolwr Sgriwtini, fydd yn gadael ei swydd ar ddiwedd y mis, am eich chefnogaeth a'i gwaith i'r Awdurdod, yn enwedig proses sgriwtini'r Cyngor.

1 YMDDIHEURIADAU:

Fel y nodir uchod.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB:

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3 MATERION BRYG GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w adrodd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Medi 2025, a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025, am gadarnhad.

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod yn gywir -

- **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2025;**
- **Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2025.**

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, oedd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Tachwedd 2025 a Mehefin 2026, i'w gymeradwyo.

Cyflwynodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar ychwanegiadau yn y Flaen Rhaglen Waith, fel a ganlyn:-

- Cyfarfod 25 Tachwedd 2025 - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cymeradwyo'r Cyfrifon Terfynol.
- Cyfarfod 25 Tachwedd 2025 - Rhaglen Cysylltu â Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau - Cytundeb Cydweithio (symud eitem i gyfarfod mis Hydref).
- Cyfarfod 25 Tachwedd 2025 - cynigion grant Uchelgais Gogledd Cymru
- Cyfarfod Mehefin 2026 - Adroddiadau Perfformiad Chwarterol ac adroddiadau cyllideb Chwarter 1, 2026/2027.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2025 i Fehefin 2026.

6 CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 04/2024 – 03/2025

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, oedd yn ymgorffori gwybodaeth am gwynion gwasanaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, y cyn Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer, yr adroddiad oedd yn dangos y data am gwynion a chwythu'r chwiban ar gyfer 2024/2025.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod yr Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban a Chwynion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i fod yn cynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gwasanaethau'r Cyngor wedi dilysu'r data yn yr adroddiad, ac wedi cytuno ar y dadansoddiad ar y cwynion. Dywedodd bod y Swyddogion Cwynion wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, a bod y polisi wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu cyflwyno cwynion cam 1 a 2, ac mae cysyniad cwynion wedi'i dynnu fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. Mae 3.5 yr adroddiad yn cynnig manylion ar y gwasanaethau sydd wedi derbyn cwynion yn ystod cyfnod 2024/2025, fel y dangosir yn Atodiad 2. Mae Priffyrdd ac Eiddo yn tanberfformio oherwydd cynnydd yn nifer y cwynion, o 19 yn y

flwyddyn flaenorol i 49 yn 2024/2025. Gwelwyd hefyd ddiffyg adrodd yn Ch1 a Ch2 yn ystod 2024/2025. Aeth ymlaen i ddweud bod cwynion i'r Gwasanaeth Tai wedi gwella o 139 yn y flwyddyn ganlynol i 47 yn ystod 2024/2025, a nododd bod problemau cynt yn deillio o feddalwedd a gyflwynwyd. Fodd bynnag, er bod gwelliant wedi bod yn nifer y cwynion a dderbynnir, roedd lefel y cwynion hynny a gafodd eu cadarnhau'n uchel ac mae'n amlwg fod diffyg adrodd yn ystod Ch1 a Ch2 yn y flwyddyn gyfredol. Cafodd 93% o gwynion a dderbyniodd y Gwasanaeth Hamdden eu cadarnhau, ac awgrymwyd bod angen hyfforddiant i staff wrth gofnodi cwynion hytrach na chofnodi ceisiadau am wasanaeth. Mae lefel dda o berfformiad wedi bod yn y Gwasanaeth Cynllunio a'r Gwasanaeth Gwastraff, a ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymatebion hwyr.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, a nododd fod nifer y cwynion wedi gostwng o 38 yn y flwyddyn flaenorol i 22 yn 2024/2025. Nododd mai'r prif neges o Lythyr yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yw bod 24% o'r cwynion yn y flwyddyn flaenorol yn ymwneud â phroses y Cyngor o ran delio gyda chwynion. Gwnaeth hyn arwain at 10 ymyrraeth gan yr Ombwdsmon yn y flwyddyn flaenorol, fod bynnag yn 2024/2025 gwelwyd gostyngiad o 5% gyda dim ond un ymyrraeth. Mae manylion ychwanegol wedi'u cynnwys yn Rhan 4 yr adroddiad.

Dywedodd fod Polisi Cwynion y Cyngor yn pwysleisio ar ddysgu o gamgymeriadau a defnyddio'r wybodaeth honno i wella gwasanaethau. Mae angen rheolaeth well o fewn y Gwasanaethau Priffyrdd ac Eiddo a'r Gwasanaeth Tai, ynghyd â hyfforddiant pellach ar gyfer y Gwasanaeth Hamdden. Mae angen gweithredu'n gynt ar argymhellion yr Ombwdsmon a sicrhau yr adroddir ar y camau a gymerir i'r Ombwdsmon o fewn y cyfnod a ganiateir gan yr Ombwdsmon. Dywedodd fod angen cynlluniau gweithredu er mwyn gwella perfformiad lle bo'n ofynnol, a bod Swyddogion Cwynion angen cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb a Gofal Cwsmer gan fod sesiynau hyfforddiant ar y CRM wedi'u cwblhau. Cwblheir adolygiad ar y CRM mewn tri mis, a bydd y Dangosfwrdd Power BI ar gyfer Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth/Rheolwyr yn cael ei gyflwyno'n fuan a darperir canllawiau pellach i amlygu'r angen am gysondeb.

Dywedodd yr Arweinydd fod manylion yn Rhan 4 yr adroddiad yn bwysig mewn perthynas â'r gwersi a ddysgwyd, a derbynnir y bydd rhaid gwasanaethau'n derbyn lefel uchel o gwynion oherwydd natur y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Mae hefyd gofyniad i fod yn fwy cyson wrth ymateb i gwynion a'r angen i adnabod a yw cwyn yn gŵyn cam 1 yn erbyn y gwasanaeth. Gofynnodd a gydymffurfwyd gyda'r argymhellion yn Llythyr yr Ombwdsmon. Cadarnhawyd hyn, ond nodwyd nad oedd y Cyngor wedi cwblhau rhai o'r camau o fewn amser, ac nad oedd wedi ymateb i'r Ombwdsmon o fewn yr amserlen a roddwyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod yr Ombwdsmon wedi gwneud 6 argymhelliad, ond bod y rhain yn ymwneud â 2 achos. Gweithredwyd yr argymhellion ac adroddwyd ar hyn i'r Ombwdsmon. Fodd bynnag, am na adroddwyd arnynt o fewn yr amserlen a roddwyd ni chawsant eu cynnwys yn y Llythyr Blynyddol.

PENDERFYNWYD :-

- **Gweithredu'r isod, cyn gynted â phosib: -**
 - cyflwyno dashfwrdd Power BI ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr, mewn perthynas â chwynion am eu gwasanaeth;
 - darparu hyfforddiant ar gyfer swyddogion cwynion, a'u dirprwyon, ar ofal cwsmer a chydaddoldeb/amrywiaeth;
 - diweddarau'r nodyn canllaw ar drin cwynion yn effeithiol.
- **Ar ôl ystyried y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2024/2025, gofyniad bod data perfformiad presennol ar gwynion gwasanaethau yn dod yn eitem sefydlog yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng Penaethiaid Gwasanaeth/Cyfarwyddwyr a'u harweinwyr Pwyllgor Gwaith (Aelodau Portffolio).**
- **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i atgoffa gwasanaethau o'r angen i:**
 - weithredu unrhyw argymhellion gan OGCC ac adrodd i OGCC eu bod wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen a osodwyd;
 - cofnodi'n rheolaidd unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion, adnabod unrhyw batrymau a gweithredu mesurau lliniaru addas.
- **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ymateb i Lythyr Blynyddol OGCC 2024/25 yn ôl yr angen ym mharagraff olaf ond un y Llythyr o dan sylw.**

7 CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR Y CYNNIG I ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD YSGOL NEWYDD AR GYFER DISGYBLION 11-18 OED

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, oedd yn ymgorffori canlyniad yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar ganlyniad y broses ymgynghori ar y cynnig i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd. Mae gan y Cyngor ddyletswydd dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ystyried cynigion ad-drefnu ysgolion. Cynhaliwyd proses ymgynghori rhwng 5 Mehefin, 2025 a 17 Gorffennaf, 2025 i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i safle newydd. Cynhaliwyd ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, rhieni ac Estyn ynghylch y cynnig i adleoli'r ysgol i safle newydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod heriau wedi bod o ran cyflwr adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi oherwydd RACC. Cwblhawyd yr ymgynghoriad statudol er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau. Ystyriwyd opsiynau eraill hefyd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi, a daethpwyd i'r casgliad mai adleoli'r ysgol oedd yr opsiwn mwyaf addas. Dywedodd, mewn perthynas â

materion trafndiaeth i ysgolion, fod y cynnig yn cydymffurfio gyda'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau sy'n Dysgu ac y bydd llwybrau teithio llesol yn cael eu hystyried. Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Nododd fod 20% o'r sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystyried bod y safle arfaethedig i adleoli'r ysgol yn rhy bell o ganol y dref, y dylid diweddarau neu ailadeiladu'r adeilad presennol ar y safle presennol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd yn sicrhau addysg i ddisgyblion yn nalgylch Caergybi, ac yn bodloni gofynion yn y dyfodol. Mae'r costau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad presennol wedi cyrraedd £29m, a bydd codi ysgol newydd yn arwain at arbedion i'r Cyngor pan fydd yr adeilad yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod. Nododd fod asesiad ar effaith wedi'i gwblhau mewn perthynas â chydaddoldeb a'r iaith Gymraeg.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol at y trafodaethau a gynhaliwyd ar yr eitem yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 15 Hydref 2025. Dywedodd, ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad statudol mewn perthynas ag adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi, bod y pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn yr argymhellion fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cadeirydd fod mwy na 1,000 o ymatebion wedi'u derbyn yn ystod y broses ymgynghori i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi. Mynegodd 21% o'r ymatebwyr hynny bryder ynghylch lleoliad y safle arfaethedig, fodd bynnag, mae Atodiad 1 yr adroddiad yn darparu atebion clir i'r pryderon hynny a'r rhesymau dros adleoli'r ysgol.

Dywedodd y Cyngorydd Carwyn Jones fod ymatebion sylweddol wedi'u cyflwyno yn dilyn y broses ymgynghori ar y cynnig i adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi i safle newydd. Roedd yr ymatebion gan Gynghorau Ysgol o fewn y dalgylch yn galonogol mewn perthynas â'r cynnig, ac maent wedi argymhell sylwadau i'w ystyried ar gyfer y darpar ysgol.

PENDERFYNWYD :-

- **Cymeradwyo'r cynnig (yn dilyn yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y cynnig) i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed".**
- **Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi hysbysiad statudol mewn perthynas â'r cynnig.**

8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

"Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n

wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

9 ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL - ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD YSGOL NEWYDD AR GYFER DYSGWYR 11-18 OED

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, oedd yn ymgorffori'r Achos Amlinellol Strategol i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg yr adroddiad, a dweud fod yr Achos Amlinellol Strategol (SOC) yn cynnwys achos i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi i gymryd lle'r adeilad presennol erbyn mis Medi 2030. Amlinellwyd manylion y cynigion ariannu i adeiladu ysgol newydd i'r Pwyllgor. Gan y bydd y cynllun yn cael ei ddarparu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, bydd y cynnig yn arwain at arbediad yn y gyllideb cynnal a chadw ac atgyweirio canolog am y 25 mlynedd nesaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y gall ysgol sydd wedi'u dylunio'n dda ynghyd â mannau agored gwyrdd wella iechyd corfforol a meddyliol pobl ifanc, oherwydd ar hyn o bryd, mae'r ysgol bresennol yn dibynnu ar gae chwarae Millbank at ddibenion hamdden. Bydd adeilad ysgol newydd yn darparu adnoddau modern arbenigol. Bydd gan yr ysgol newydd gapasiti llai na'r ysgol bresennol, felly byddai lleoedd ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn gostwng. Dywedodd ymhellach y byddai disgwyl i gael adnoddau cymunedol pwrpasol yn adeilad yr ysgol newydd, yn ogystal â chydleoli gwasanaethau eraill, yn ogystal â mynediad at gyfleusterau modern, ddenu mwy o ddefnydd cymunedol ac ymgysylltiad a chyfranogiad teuluoedd.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol at y trafodaethau a gynhaliwyd ar yr eitem yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 15 Hydref 2025. Dywedodd, ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad statudol mewn perthynas ag adleoli Ysgol Uwchradd Caergybi, bod y pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn yr argymhellion fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gwerthfawrogi'r ymatebion i'r broses ymgynghori yn enwedig y sylwadau a dderbyniwyd gan Gynghorau Ysgolion y dalgylch.

PENDERFYNWYD:-

- **cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi;**
- **cymeradwyo cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru erbyn 8 Ionawr 2026 ar gyfer cyfarfod o'r Grwp Craffu ar Achosion Busnes a fydd yn cyfarfod bythefnos yn ddiweddarach;**
- **cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf yn dilyn gwerthu safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi i ad-dalu rhan o fuddsoddiad y**

Cyngor tuag at adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi;

- **dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog A151 a Chyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio'r Achos Amlinellol Strategol os oes angen - oni bai bod y newidiadau'n achosi newidiadau sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd bartïon).**

**Y CYNGHORYDD GARY PRITCHARD
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	25 Tachwedd 2025
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cynghorydd Gary Pritchard
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Rhagfyr 2025 – Gorffennaf 2026**;

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? Amherthnasol.
--

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E	Gyda phwy yr ymgynghoroch?	Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Gweler uchod.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Gweler uchod.
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	

E	Gyda phwy yr ymgynghoroch?	Beth oedd eu sylwadau?
8	Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyddrafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Ddim yn berthnasol.

F - Atodiadau:

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Rhagfyr 2025 – Gorffennaf 2026

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Cyngor Sir Ynys Môn

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Rhagfyr 2025 – Gorffennaf 2026

Tudalen 12

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgrwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 17 Tachwedd 2025

Rhagfyr 2025

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 16.12.25	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Rheoli'r Trysorlys – Adolygiad Canol Blwyddyn 2025/26	Cyng Robin Williams	Cyngor llawn 5.3.26
	Premiwm y Dreth Gyngor	Cyng Robin Williams	
	Rhenti a thaliadau gwasanaethau tai 2026/27	Cyng Carwyn Jones	
	Datblygiad tai newydd ar safle Plas Penlan, Llangefni	Cyng Carwyn Jones	
	Cynllun Strategol Addysg Ddigidol	Cyng Dafydd Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 10.12.25
	Ymgynghoriad Casglu Gwastraff ac Ailgylchu	Cyng Ieuan Williams	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 10.12.25

Ionawr 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 27.1.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cyllideb Refeniw drafft 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 08.1.26 Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 21.1.26
	Strategaeth Gyfalaf	Cyng Robin Williams	Cyngor llawn 5.3.26
	Gwasanaethau gofal cymdeithasol di-breswyl yn y gymuned – ffioedd a thaliadau 2026/27	Cyng Neville Evans	

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Cartrefi preswyl yr awdurdod lleol i bobl hŷn – pennu ffi safonol 2026/27	Cyng Neville Evans	
	Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2026/27	Cyng Neville Evans	
	Adroddiad gwrthwynebu a dod i benderfyniad terfynol am Ysgol Uwchradd Caergybi	Cyng Dafydd Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 21.1.26
	Cynllun Tuag at Sero Net	Cyng Nicola Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 21.1.26

Chwefror 2026

Tudalen 14

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 24.2.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 12.2.26
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 12.2.26
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 12.2.26
	Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27	Cyng Robin Williams	Cyngor llawn 5.3.26
	Ffioedd a thaliadau 2026/27	Cyng Robin Williams	

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 12.2.26 Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 18.2.26 Cyngor llawn 5.3.26
	Cyllideb Gyfalaf 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau 12.2.26 Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 18.2.26 Cyngor llawn 5.3.26
	Datganiad polisi trwyddedu alcohol ac adloniant rheoledig	Cyng Nicola Roberts	Cyngor llawn 5.3.26

Mawrth 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Penderfyniad dirprwyiedig - Mawrth 2026	Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024/25	Cyng Alun Roberts	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 17.3.26
Cyfarfod 24.3.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2025/26	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 18.3.26
	Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 18.3.26

Ebrill 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtni a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 28.4.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Mai 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtni a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Mai 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Tudalen 16

Mehefin 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgriwtni a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Penderfyniad dirprwyiedig - Mehefin 2026	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26	Cyng Dafydd Roberts	
Cyfarfod Mehefin 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgriwtni Corfforaethol
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtni Adnoddau
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgriwtni Adnoddau

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwrtini Adnoddau

Gorffennaf 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Gorffennaf 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cynllun Datblygu Lleol – Ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir	Cyng Nicola Roberts	

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Y Cyngor
Dyddiadau:	25/11/2025 04/12/2025 09/12/2025
Pwnc:	Diwygio'r Cyfansoddiad - Rhoi Cymeradwyaeth Derfynol i Gyfrifon Blynnyddol y Cyngor
Aelod Portffolio:	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Lord, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro
Aelodau Lleol:	Pawb

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Argymhellion**Y Pwyllgor Gwaith**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynnyddol y Cyngor yn derfynol.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynnyddol y Cyngor yn derfynol.

Y Cyngor

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynnyddol y Cyngor yn derfynol.

Rhesymau

- Mae prif gamau proses gymeradwyo Cyfrifon Blynnyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- Ardystio'r cyfrifon drafft - Swyddog Adran 151
- Archwiliad cyhoeddus o'r cyfrifon drafft

3. Adolygu'r cyfrifon drafft wedi'u harchwilio - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
 4. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn iddo ystyried y cyfrifon drafft wedi'u harchwilio
 5. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu'r cyfrifon drafft terfynol
 6. Y Cyngor llawn i gymeradwyo'r cyfrifon terfynol
- Mae Cynllun Blynnyddol Archwilio Cymru yn cynnwys nod clir i fyrhau'r amserlen archwilio ar gyfer llywodraeth leol. Y dyddiad awdurdodi ar gyfer 2025/26 yw 30/09/2026 ac mae hyn fis yn gynharach na 2024/25.
 - Mae hyn yn cywasgu'r amser sydd ar gael i ymateb i unrhyw faterion a godir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cytuno ar unrhyw newidiadau gyda'r Archwilydd Allanol a chynhyrchu fersiwn ddwyieithog ddiwygiedig a chywir o'r cyfrifon terfynol.
 - Os bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon, yna bydd rhaid symud cyfarfod Medi 2026, neu bydd angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn.
 - Mae dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn broses gymeradwyo fwy effeithlon. Nid oes unrhyw anfantais i unrhyw gynghorydd, na'r cyhoedd, oherwydd bydd yr adroddiadau'n parhau i fod ar gael yn y ffordd arferol (gweler y broses gymeradwyo llawn uchod).
 - Mae Archwilio Cymru wedi awgrymu'r newid arfaethedig er mwyn sicrhau fod ein trefniadau'n cyd-fynd â'r trefniadau presennol sydd ar waith mewn prif gynghorau yng Nghymru.
 - Yng nghyd-destun y cefndir hwn, yr hyn y gofynnir amdano yw newid paragraff 3.4.8.12.3 - "*Bydd y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo datganiadau ariannol y Cyngor, ~~cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn~~, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig*".
 - O dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad "*...ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig*".
 - Cyflwynir adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar 04/12/2025, er mwyn gofyn barn y pwyllgor hwnnw ar y newid arfaethedig.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Bod y Cyngor llawn yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon. Gwrthodwyd hyn gan fod y sefyllfa bresennol yn cael effaith negyddol ar effeithlonrwydd y broses, ac nid yw'r newid arfaethedig yn creu anfantais i unrhyw barti.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Fodd bynnag, o dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad, mae'n ofynnol rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno sylwadau ar unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cyfansoddiad.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad (nad ydynt yn ymwneud â 3.5.3.6.6. a 3.4.12.6.3)

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?

Mae'r newid arfaethedig yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithlon mewn perthynas â chyfrifon statudol y Cyngor.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

Nid i unrhyw raddau sylweddol, ond bydd yn osgoi'r angen i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor.

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Archwilio Cymru

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Na

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dim effaith

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Dim effaith

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Ystyriwyd y mater ar 14/10/2025 pan gytunwyd ar yr argymhelliad.
2. Swyddog Cyllid / 151	Y Swyddog Adran 151 sydd wedi comisiynu'r adroddiad
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Awdur yr adroddiad ac mae'n cefnogi'r argymhelliad Mae cyngor cyfreithiol wedi ei geisio, yng nghydestun yr adroddiad hwn, o ran y gwrthdaro rhwng yr Atodiad Darparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol a'r ddeddfwriaeth, pan ddaw hi i hawliau pleidleisio aelodau lleyg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliad 10 y Cyfrifon a Rheoliadau archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) a chanllawiau statudol yn ei gwneud yn glir fod gan aelodau lleyg y Pwyllgor archwilio a Llywodraethiant hawliau pleidleisio llawn. Cydnabyddir hyn gan CIPFA a bydd eu canllawiau yn cael eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r safbwynt statudol cywir.
4. AD	Amherthnasol
5. Eiddo	Amherthnasol
6. TG	Amherthnasol
7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Amherthnasol
9. Aelodau Lleol	Ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 04/12/2025

F - Atodiadau

--

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

--

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	25 Tachwedd 2025
Pwnc:	Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2025/26)
Aelod(au) portffolio:	Y Cyngorydd Robin W Williams, Dirprwy Arweinydd, Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Carys Edwards
Awdur yr adroddiad:	Gwyndaf Parry GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau lleol:	Amherthnasol

A – Argymhellion a rhesymau

1.1 Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor. 1.2 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys: - Mae 88% o swyddi gwag y cyngor, cyfanswm o 288 o swyddi, wedi'u hysbysebu fel rhai sy'n gofyn am Lefel 3 o Gymraeg neu uwch - Mae bron i 300,000 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Môn Actif yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn - Roedd 88% o denantiaid yn fodlon gyda gwaith cynnal a chadw ymatebol hyd at ddiwedd mis Medi, gwelliant o gymharu â'r 84% yn Ch1 - Mae 11 o systemau gwresogi carbon isel wedi'u gosod mewn adeiladau'r cyngor hyd yn hyn gyda 23 arall wedi'u cynllunio 1.3 Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol. 1.4 Argymhellir y rhain fel a ganlyn: 1.4.1 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod); 1.4.2 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k); 1.4.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k); 1.4.4 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol 1.4.5 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd 1.4.6 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddedfnyddio, ailgylchu neu gompostio; 1.4.7 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amh.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Gallai perfformiad rhai dangosyddion perfformiad o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Ymgwymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Chwaraeon Cymru, ymhlith eraill.

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Amh

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amh

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amh

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amh

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad
2. Cyllid / Swyddog 151	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
4. Adnoddau Dynol	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
5. Eiddo	
6. Technoleg Gwybodaeth	
7. Caffael	
8. Sgriwtini	Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 18/11. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn.
9. Aelodau Lleol	

F – Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 2
--

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

- | |
|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun y Cyngor 2023-2028 • Cerdyn Sgorio Ch1 25/26 |
|---|

Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2025/26

Adroddiad Chwarter 2

Tudalen 28

Paratowyd gan – Gwasanaeth Trawsnewid

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn nodi'r camau gweithredu a'r ymrwymadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.



Welsh Language



Social Care and
Wellbeing



Education



Housing



Economy



Climate Change



Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

- 1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer 2024/25 wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy'n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.
- 1.3 Mae nifer o DPA yn newydd (wedi'u nodi gan [N] yn y teitlau), nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae tueddiadau'n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2025/26 gyda'r nod o osod targedau yn 2026/27 lle bo'n briodol.
- 1.4 Mae'n darparu'r dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.
- 1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio i gyd yn gronnol ac felly mae colofn tuedd ar gael o Ch2 i hysbysu'r tueddiadau perfformiad o un chwarter i'r llall chwarter.
- 1.6 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:
- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
 - Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
 - Melyn – o fewn 5% i'r targed
 - Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (87%) o'r dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae saith dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau:

2.2.1 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – COCH – 81 diwrnod, Targed – 51 diwrnod

Mae prosesau'r dangosydd yma wedi cael adolygiad trylwyr. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno rhai newidiadau i'w brosesau sydd wedi arwain at welliant yn y nifer cyfartalog o ddiwrnodau. Er bod y perfformiad cyfredol yn parhau'n GOCH, mae gwelliant clir o fis i fis gyda'r nifer o ddyddiau yn lleihau'n raddol, sy'n dangos cynnydd cadarnhaol wrth reoli trosiant ein eiddo.

Ers cyflwyno'r prosesau newydd ym mis Ebrill, mae'r amseroedd ail-osod bellach tua 54 diwrnod ar gyfartaledd. Yn anffodus, cyn gweithredu'r newidiadau, roedd eiddo a ddychwelwyd i'r cyngor yn cymryd tua 101 diwrnod ar gyfartaledd i'w hail-osod, sydd wedi arwain at gyfartaledd cronol Ch2 o 81 diwrnod.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithredu'r prosesau hyn ac yn seiliedig ar y perfformiad cyfredol, rhagwelir gwelliant pellach yn y dangosydd hwn dros gyfnod y flwyddyn.

2.2.2 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k) - AMBR - 204 diwrnod, Targed - 190 diwrnod

ac

Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) - addasiadau (>£10k) – COCH – 285 diwrnod, Targed - 221 diwrnod

Fel yr eglurwyd yn yr Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch1, oherwydd y perygl o wario dros y gyllideb, rhoddwyd seibiant ar gymeradwyo ceisiadau newydd ym mis Tachwedd 2024. Cafodd hyn effaith pan ddechreuodd y gwasanaeth gymeradwyo eto tuag at ddiwedd Ch4 24/25. Yn anffodus, roedd y contractwyr llwyddiannus eisoes wedi symud ymlaen i brosiectau eraill, a arweiniodd at oedi wrth

ddechrau contractau. Er cynnydd bach yn y nifer o gontractwyr sydd ar gael yn lleol, nid yw hyn wedi arwain at llawer ohonynt yn ennill tendrau DFG.

Er cyd-destun, cwblhawyd 14 eiddo gydag addasiadau ‘canolig’ a 2 eiddo gyda addasiadau ‘mawr’ yn ystod Ch1. Mae’r cyngor yn parhau’n ymrwymedig i leihau nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i gyflawni GCA

2.2.3 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol – COCH – 151, Targed – 170

Mae’r galw am angorfeydd yn parhau i leihau. Mae perchnogaeth cychod wedi gostwng ac mae’r dewisiad o gyfleusterau marianau gyda mannau “camu ymlaen” yn parhau i gynyddu, gan arwain at ostyngiad yn y defnydd o angorfeydd. Mae’r system o osod darn o wely’r môr ac yna gofyn i’r deiliad brynu’r offer angori a threfnu ei osod gan gontractwr trydydd parti hefyd yn gwneud angorfeydd yn Y Fenai yn llai deniadol.

Gyda chystadleuaeth gan farianau Conwy, Felinheli, Caernarfon a Phwllheli sy’n cynnig angorfeydd camu ymlaen gyda chyfleusterau, mae’n anodd rhagweld gwelliant. Dim ond system lle byddai’r cyngor yn berchen ar yr angorfeydd ac yn eu gosod, yn debyg i’r systemau a ddefnyddir gan eraill, a allai arwain at gynnydd yn y defnydd, er y byddai’r gost gychwynnol yn sylweddol ac ar hyn o bryd yn anghyraeddadwy o fewn y gyllideb. Bydd y targed blynyddol yn debygol iawn o beidio cael ei gyflawni.

2.2.4 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy’n cael eu harchwilio’n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd – COCH – 64%, Targed – 90%

Cynhaliwyd 74 o’r 116 o archwiliadau oedd yn ddisgwyliedig hyd at ddiwedd Ch2. Mae hyn yn is o gymharu â’r 85% a gyflawnwyd yn Ch1 a’r 83% a gyflawnwyd erbyn diwedd Ch2 yn 2024/25.

Er mwyn cydymffurfio â’r cynllun trwyddedu gweithdrefnau arbennig newydd, sy’n canolbwyntio ar wella safonau hylendid a diogelwch ymhlith tatŵwyr, tyllwyr corff, aciwbwntwyr a’r rhai sy’n cynnig ‘electrolysis’, roedd yn rhaid archwilio a thrwyddedu pob ymarferydd a safleoedd perthnasol erbyn diwedd Awst. Roedd yr archwiliadau a’r asesiadau yn aml yn gymhleth ac yn gofyn am ddau swyddog. O ganlyniad cafodd nifer yr archwiliadau bwyd a oedd yn bosibl eu cwblhau ei leihau gan fod y swyddogion gyda swyddi sy’n archwilio safleoedd bwyd ac safleoedd iechyd a diogelwch.

Derbyniodd holl safleoedd bwyd a oedd yn peri'r risg uchaf archwiliad ac fe fydd pob safle bwyd risg uchel sy'n disgwyl arolygaeth yn cael eu harolygu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2.2.5 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – COCH – 66.36%, Targed – 70%

Roedd perfformiad Ch2 ar gyfer y dangosydd hwn yn 66.36% yn erbyn targed o 70%, sy'n cynrychioli dirywiad o gymharu â 67.5% yn Ch2 2024/25 a 67.8% yn Ch2 2023/24.

O ganlyniad i'r tywydd sych dros yr haf, casglwyd 371 tonnall yn llai o wastraff gwyrdd o gymharu â Ch2 2024/25, a gafodd hyn effaith negyddol ar y gyfradd ailgylchu a chompostio gyffredinol. Mae'r Tîm Ymyrraeth wedi cymryd dros 700 o finiau du i ffwrdd o eiddo oedd naill ai â mwy nag un bin du neu nad oeddent yn gymwys ar gyfer casgliad gwastraff domestig (gan fod yr eiddo naill ai'n fusnes neu'n dai haf). Mae'r tîm hefyd wedi newid tua 750 o finiau du mawr (360L) i finiau maint safonol (240L).

Cafodd gwastraff gweddilliol a gasglwyd yn ystod y cyfnod ei leihau o 281 tonnall o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n ganlyniad cadarnhaol. Fodd bynnag, oherwydd y tywydd sych casglwyd 276 tonnall yn llai o wastraff gwyrdd, a gafodd effaith negyddol ar y gyfradd ailgylchu a chompostio gyffredinol. Disgwylir effaith dymhorol debyg yn Ch2.

Er mwyn lliniaru ac i geisio gwella'r gyfradd, bydd y cyngor yn parhau â'i nod o leihau gwastraff cyffredinol ac annog mwy o ailgylchu drwy gydweithio â'r cymunedau lleol i addysgu trigolion. Mae hon yn strategaeth hirdymor sy'n gofyn am newid ymddygiad parhaus, felly bydd gwelliannau'n raddol yn hytrach nag yn syth.

Mae'r cyngor wedi sefydlu bwrdd rhaglen i drafod pa fesurau lliniaru pellach y gellir eu rhoi ar waith. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol a nodir gan y bwrdd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini cyn gwneud unrhyw newidiadau.

2.2.6 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – COCH – 76%, Targed – 90%

Cafwyd 467 o geisiadau hyd at ddiwedd Ch2 a 111 o'r ceisiadau hynny yn hwyr. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i gynyddu'r gyfradd ymateb i geisiadau FOI.

Mae Swyddog Diogelu Data (DPO) presennol y Cyngor wedi adolygu polisi a gweithdrefnau FOI y Cyngor. Yn dilyn yr adolygiad hwn, bydd manyleb newydd yn cael ei datblygu ar gyfer sefydlu ceisiadau gwybodaeth ar y system CRM, a fydd yn sicrhau bod ein gweithdrefnau yn cydymffurfio â Safonau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Credir y dylai'r system ar-lein newydd wella'r perfformiad yn y tymor hir. Mae rhywfaint o ostyngiad mewn capasiti o fewn y gwasanaethau i ddelio â thasgau ceisiadau gwybodaeth hefyd yn sicrhau bod cyrraedd y targed o 90% yn un heriol.

2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- 2.3.1 Mae 88% o swyddi gwag y cyngor, cyfanswm o 288 o swyddi, wedi'u hysbysebu fel rhai sy'n gofyn am Lefel 3 o Gymraeg neu uwch
- 2.3.2 Mae bron i 300,000 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Môn Actif yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn
- 2.3.3 Roedd 88% o denantiaid yn fodlon gyda gwaith cynnal a chadw ymatebol hyd at ddiwedd mis Medi, gwelliant o gymharu â'r 84% yn Ch1
- 2.3.4 Mae 95% o geisiadau cynllunio, cyfanswm o 323 o geisiadau, wedi'u penderfynu o fewn amser
- 2.3.5 Mae 11 o systemau gwresogi carbon isel wedi'u gosod mewn adeiladau'r cyngor hyd yn hyn gyda 23 arall wedi'u cynllunio



3. Yr Iaith Gymraeg

Tudalen 34

	Ch1	Ch2	Targed Ch2	CAMG Ch2	Tuedd Ch	Ch2 2024/25	Sylwadau Ch2
01) Canran o swyddi hysbysebair gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 3 ac uwch [N]	85%	88%	82%	G	↑	77%	288 o swyddi hysbysebair ar lefel 3 ac uwch
02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg	50	64	62	G	↓	62	
03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg	0	0	4	G	→	4	Un ymchwiliad yn erbyn cwyn a gododd yn 24/25
04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg	1	1			→	0	
05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg	9%	7%	9%	M	↓	7%	Ychydig llai o ymweliadau i gymharu gyda Ch1, ond tebyg i Ch2 24/25
06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg	-	6%	8%	M	-	10%	
07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor	23%	23%	23%	G	→	23%	
08) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf]							Data ar gael yn Ch3
09) Uned iaith - % o blant yn cyrraedd eu disgwyliadau (trochi) [N]							Data ar gael yn Ch3
10) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth iaith Gymraeg [N]							Data ar gael yn Ch3



4. Gofal Cymdeithasol a Lleisiant

	Ch1	Ch2	Targed Ch2	CAMG Ch2	Tuedd Ch	Ch2 2024/25	Sylwadau Ch2
01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol	256	247	224	G	↓	226	
02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol	96.34%	94.15%	90%	G	↓	89.80%	
03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol	88.07%	87.64%	85%	G	↓	92.96%	
04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal	295	323	335	G	↓	320	
05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn	98.20%	98.60%	93%	G	↑	95.20%	
06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter	163	170	270	G	↓	128	
07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr	3.57%	1.56%	15%	G	↑	0	
08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis	7.69%	15.68%	15%	M	↓	10.09%	29 o'r 185 cyfeiriad yn rhai ail-gyfeirio
09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	90.61%	90.39%	90%	G	↓	92.13%	
10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni	100%	100%	85%	G	→	1	
11) Nifer o ymweliadau a Chanolfannau Hamdden	129,096	260,023	265,188	M	↓	252,090	
12) Nifer o bobl wedi ymwneud a gweithgareddau Môn Actif [N]	146,746	296,458	287,188	G	↑		
13) Canran o rieni sy'n teimlo eu bod wedi gweld cynnydd yn dilyn cwblhau y rhaglen Positive Parenting Programme (PPP) [N]							Data ar gael yn Ch4

5. Addysg



Tudalen 36

	Ch1	Ch2	Targed Ch2	CAMG Ch2	Tuedd Ch	Ch2 2024/25	Sylwadau Ch2
01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor)	93.2%	93.2%	95%	M	→	93%	Perfformiad tebyg i Ch2 24/25
02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor)	88.2%	89.7%	90%	M	↑	89%	Ychydig gwell i gymharu gyda Ch2 24/25
03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET]							Data ar gael yn Ch4
04) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn	1	1			→	0	
05) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol	23	2				4	
06) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol	6	6	6	G	→	6	
07) Canran yr oedolion sy'n credu, ar y cyfan, fod y gwasanaeth llyfrgell maen nhw'n ei ddefnyddio yn 'dda iawn' neu'n 'dda' [N]							Data ar gael yn Ch4
08) Y sgôr cyfartalog gyffredinol allan o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio [N]							Data ar gael yn Ch4
09) CDU - canran o blant sy'n cyrraedd eu targedau [N]							Data ar gael yn Ch3
10) Nifer y plant sydd wedi symud i fyny, neu wedi cwblhau, Rhaglen Nofio Môn. [N]	924	1610	1270	G	↑		



6. Tai

	Ch1	Ch2	Targed Ch2	CAMG Ch2	Tuedd Ch	Ch2 2024/25	Sylwadau Ch2
01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol	15	14	18	G	↑	18	
02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol	84%	88%	85%	G	↑	88%	
03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) [N]	89	80	51	C	↑		Ers sefydlu'r broses newydd ym mis Ebrill, mae'n cymryd 54 diwrnod ar gyfartaledd i ail-osod unedau. Y broses flaenorol cyn Ebrill yw'r prif reswm dros beidio â chyrraedd y targed.
04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (£1k-10k)	205	204	190	A	↑	184	Cwblhawyd 14 o addasiadau chanolig yn Ch2
05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (>£10k)	285	285	221	C	→	222	Cwblhawyd 2 o addasiadau mawr yn Ch2
06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor	4	13	13	G	↑	36	
07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol	3.19%	3.35%	3.10%	M	↓	4%	
08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag	15	32	25	G	↑	34	
09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref	80%	90%	85%	G	↑	90%	
10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62)	117	292			↓	294	
11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd	79	84			↓	101	

7. Economi



Tudalen 38

	Ch1	Ch2	Targed Ch2	CAMG Ch2	Tuedd Ch	Ch2 2024/25	Sylwadau Ch2
01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd	70%	112%				41%	Gwariant o flaen amserlen
02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economiadd ac adfywio (£) [N]	£1.653m	£2.758m					
03) Canran yr unedau busnes a masnachol osodwyd gan y Cyngor [N]	95%	98%	90%	G	↑		
04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol	100	151	170	C	↓	190	51 o gontractau yn Ch2 yn erbyn targed o 65. Mae'n annhebygol iawn y bydd y targed blynyddol yn cael ei gyflawni.
05) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd	94%	95%	90%	G	↑	97%	323 o geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu mewn pryd
06) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod	87%	79%	80%	M	↓	92%	
07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd	85%	64%	90%	C	↓	83%	74 o'r 116 o archwiliadau wedi'u cynnal. Mae'r holl fusnesau gyda'r risgiau uchaf wedi'u harolygu. Mae cynlluniau ar waith i ddal i fyny yn ail hanner y flwyddyn.
08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd	99%	99%	95%	G	→	98%	
09) Nifer o bobl wedi eu cefnogi i baratoi ar gyfer byd gwaith, drwy ymyraethau SPF [N]	162	320			↑		

8. Newid Hinsawdd



Tudalen 39

	Ch1	Ch2	Targed Ch2	CAMG Ch2	Tuedd Ch	Ch2 2024/25	Sylwadau Ch2
01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n dod o adeiladu'r cyngor (tCO2e)							Data ar gael yn Ch4
02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio	65.95%	66.36%	70%	C	↓	67.46%	Dim gwelliant pellach ers Ch1, yn rhannol oherwydd gostyngiad yn y Gwastraff Gwyrdd oherwydd y tywydd cynhesach.
03) Canran y gwastraff a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu'r Cyngor	46%	44.4%			↓	48%	Mae'r gyfradd wedi gostwng o'i chymharu â Ch2 2024/25
04) Canran y strydoedd sy'n lân	100%	100%	96%	G	→	97.5%	
05) Nifer o ddiwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon	0.01	0.03	1	G	↓	0.04	
06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)							Data ar gael yn Ch3
07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)							Data ar gael yn Ch3
08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)							Data ar gael yn Ch3
09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tCO2e inc WTT)	156.5	311.02	320	G	↑	320	
10) Nifer o Ysgolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau Newid Hinsawdd wedi eu achredu [N]							Data ar gael yn Ch3
11) Nifer o systemau gwresogi carbon isel wedi eu gosod yn adeiladau y Cyngor [N]		11					11 o osodiadau wedi'u cwblhau gyda 23 arall wedi'u cynllunio
12) Defnydd o bwyntiau gwefru cyhoeddus y Cyngor (kwh) [N]	76,786	149,427			↓		Mae hyn yr un peth â gyrru o Gaergybi i Gaerdydd ac yn ôl dros 1,100 o weithiau

9. Iechyd Cyngor Cyfan

	CAMG	Tuedd	Cyllideb	Canlyniad	Amrywiant (%)	Rhagolygon o'r Gwariant	Amrywiant a Ragwellir (%)
01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw)	G	→	£192,983,000			£192,331,000	-0.34%
02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf)		↑	£35,148,000			£33,111,000	-5.80%
03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau)	G	↓	-£8,204,707	£9,847,700	20.03%		
04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn		↑				-£17,416,300	
05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer		→	2.35%			2.35%	
06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb		→				2	
07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf)	M	↑		97.1%			
08) % y Môn Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf)	M	↑		91.4%			

	Ch1	Ch2	Targed Ch2	CAMG Ch2	Tuedd	Sylwadau Ch2
09) Cyfanswm y cwynion cam 2 a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol	1	3	6	G	↓	3 cwyn corfforaethol
10) Cyfanswm % y cwynion cam 2 a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol)	100%	87%	80%	G	↓	
11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)	80%	80%	80%	G	→	Roedd dau gwyn cam 1 yn hwyr ond roedd amser ychwanegol wedi cytuno gyda'r achwynyddion
12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser	74%	76%	90%	C	↑	111 o'r 467 cais FOI yn hwyr
13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth)	32%	35%			↑	
14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	2376	2380			↑	
15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	1.93	3.93	4.08	G	↓	
16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE	0.92	1.73			↑	
17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE	1.01	2.2			↓	
18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant)						
19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith	78%	73%	70%	G	↓	96 o swyddi wedi llenwi ar ôl yr hysbyseb cyntaf

10. Casgliad ac Argymhellion

- 10.1 Mae'r perfformiad o 87% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.
- 10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.
- 10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**
 - 10.3.1 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);
 - 10.3.2 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);
 - 10.3.3 Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);
 - 10.3.4 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol
 - 10.3.5 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd
 - 10.3.6 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;
 - 10.3.7 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	25 Tachwedd 2025
Pwnc:	Hunanasesiad a Perfformiad (Llesiant) 2024/25
Aelod(au) portffolio:	Y Cynghorydd Carwyn E. Jones
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid
Awdur yr adroddiad:	Gwyndaf Parry Gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau lleol:	Amh

A – Argymhellion a rhesymau

1. Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo yr Adroddiad Hunanasesiad a Perfformiad (Llesiant) Blynnyddol 2024/25.

Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae'r ddyletswydd ganlynol yn cael ei chydabod ar Gyngor Sir Ynys Môn:

... Parhau i adolygu ei berfformiad

- 1) Rhaid iddo barhau i adolygu'r graddau -
- (a) ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol,
 - (b) ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, a
 - (c) bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)

ac mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol,
gwneud adroddiad yn nodi ei gasgliadau o ran i ba raddau y cyflawnodd y gofynion perfformiad (A, B ac C uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

Er mwyn cwrdd â'r disgwyliad uchod, paratowyd Hunanasesiad drafft y Cyngor ar gyfer 2024/25. Mae'r adroddiad yn dangos allbwn fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor ac mae'n ddiwedd proses sy'n uno sawl agwedd wahanol gyda'i gilydd.

Yn ogystal mae'r adroddiad yn adlewyrchu perfformiad y cyngor yn erbyn ein amcnaion llesiant yn unol a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ac yn monitor cynydd yn erbyn chwech amcan strategol Cynllun y Cyngor 2023-2028.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd opsiynau eraill gan ei bod yn disgwyliadau craidd y ddeddfwriaethau - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n broses sy'n unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n broses sy'n unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Rhagwelir y bydd y rhaglen waith gysylltiedig (a ddarlunnir at ddiwedd y hunanasesiad sy'n cynnwys y meysydd hynny wedi cario drosodd i 2025/26) a bod ei sylweddoliad yn cael ei roi o dan arweinyddiaeth a pherchnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth (TA) o fewn amser yn unol â blwyddyn ariannol y Cyngor 25/26.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Mae'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor drwy gydnabod meysydd cysylltiedig sydd angen sylw pellach fel cyngor.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Yn rhannol - ie, ynglŷn â'r gwelliannau disgwyliedig sydd eu hangen ym mherfformiad rhai ardaloedd ac ati.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Mae rhan benodol o'r hunanasesiad yn cydnabod yr holl waith cydweithredol sy'n digwydd ar draws ystod y Gwasanaethau

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Mae trigolion Ynys Môn drwy'r pwyllgorau craffu corfforaethol yn cael cyfle chwarterol i fynegi eu barn a herio'r gorfforaeth ar ei pherfformiad. Mae'r cynnwys hefyd yn nodi sut mae'r gwahanol wasanaethau'n cynnwys dinasyddion yn ei benderfyniadau.

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni ragwelir y bydd y rhaglen waith yn cael effaith ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Amh

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amh

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Cafodd hyn ei ystyried gan y Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (LT) ac mae eu sylwadau yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad
2. Cyllid / Swyddog 151	Mae sylwadau'r Swyddog Adran 151 fel aelod o'r LT hefyd wedi'u cynnwys
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae sylwadau'r Swyddog Monitro fel aelod o'r LT wedi'u cynnwys
4. Adnoddau Dynol	Adlewyrchir sylwadau yn yr adroddiad
5. Eiddo	
6. Technoleg Gwybodaeth	
7. Caffael	
8. Sgriwtini	Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 18/11. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn.
9. Aelodau Lleol	Amherthnasol
10. Pwyllgor Llywodraethu ag Archwilio	Trafodwyd y rhan Hunanasesiad ym Mhwyllgor Llywodraethu ag Archwilio mis Medi – roedd y pwyllgor yn teimlo fod y tabl ar dudalen 17 sy'n dangos canlyniadau perfformiad fesul Gwasanaeth yn adlewyrchu perfformiad gadarnhaol iawn – cwestiynodd y pwyllgor os oedd yn adlewyrchiad teg. Mae'r tabl yn adlewyrchu perfformiad y Gwasanaethau yn erbyn yr hyn a ymrwymwyd i wneud ar ddechrau y flwyddyn, yn hytrach na effaith eu perfformiad ar gymunedau.

	Rydym yn y broses o sefydlu grŵp Llywodraethiant mewnol fydd yn adolygu y broses a templed hunanasesiad un o'r meysydd i'w adolygu ydy'r categorïau sgorio a'u diffiniad er mwyn sicrhau fod hyn yn adlewyrchiad teg a cyson o berfformiad y Gwasanaethau a'r Cyngor. .
--	---

F – Atodiadau

Hunanasesiad a Perfformiad (Llesiant) 2024/25

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

• Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 • Adroddiad Hunanasesiad 2023/24 • Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – 16/7/2025



Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) 2024/25

Paratowyd gan – Gwasanaeth Trawsnewid

Dyddiad cyhoeddi – Tachwedd 2025

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn gan Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn cyfuno ei Hunanasesiad a'i Adroddiad Perfformiad (Llesiant) am y tro cyntaf. Mae'n dangos canlyniad ein dull ar y cyd o gynllunio, rheoli perfformiad ac annog llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n dangos tystiolaeth ein bod wedi:

- Cyflawni ein hamcanion strategol a blaenoriaethau allweddol
- Defnyddio ein hadnoddau yn economaidd, effeithiol ac effeithlon, a
- Rheoli a lleihau risgiau.

Mae gwaith y cyngor yn cael ei lywio gan ei weledigaeth “**i greu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu**”. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi ein hamcanion strategol, sicrhau bod cyswllt rhwng ein blaenoriaethau a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2021, sicrhau bod ein penderfyniadau a'n gwasanaethau'n gynaliadwy a chanolbwyntio ar wella'r canlyniadau ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i ganlyniadau a pherfformiad y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n canolbwyntio ar y modd yr ydym wedi cyflawni'r hyn yr oeddem wedi bwriadu'i gyflawni. Nid yw o reidrwydd yn ystyried effaith lawn ein gwaith ar y canlyniadau i gymunedau, gan fod ffactorau ehangach sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor yn gallu dylanwadu ar y canlyniadau hynny.

Mae'n dangos ymrwymiad y cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n mynnu bod cynghorau'n adolygu pa mor dda y maent yn cwrdd â'r gofynion perfformiad yn rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n effeithiol, sicrhau bod adnoddau'n effeithlon a chynnal llywodraethiant da. Ein nod yw adeiladu ar ein cryfderau a pharhau i wella arloesedd, tryloywder a gwasanaethau yn unol â'r fframwaith perfformiad a llywodraethiant cenedlaethol.

Mae hefyd yn amlygu'r gwaith a gwblhawyd mewn partneriaeth â'n cymunedau gwydn i gyflawni canlyniadau allweddol. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg clir o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymadau 2024/25 a nodwyd yn y Ddogfen Cyflawni Flynyddol 2024/25, y cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymadau'r Amcanion Strategol yng Nghynllun y Cyngor erbyn 2028, yn ogystal ag ein hymrwymadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso'n cynnydd ac yn sail ar gyfer ein dyheadau ar gyfer y dyfodol.



Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r amcanion strategol a nodir yn Cynllun y Cyngor wedi'i llunio er mwyn cefnogi'r Cyngor yn ei ddyletswydd i gwrdd â'n hamcanion Llesiant er budd cenedlaethau'r presennol a hefyd chenedlaethau'r dyfodol. Ein hamcanion Llesiant:

- Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
- Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion Llesiant yn cyd-fynd ag amcanion Llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

Amcanion Llesiant y Cyngor	Amcanion Strategol y Cyngor	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir	Yr Iaith Gymraeg, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg, Tai a'r Economi	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib	Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg a Tai		✓	✓	✓	✓	✓	
Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Yr Iaith Gymraeg, Economi a Newid Hinsawdd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

Tudalen 50

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:

'Creu Ynys Môn sy'n
iach a llewyrchus lle
gall pobl ffynnu'



Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu,
magu hyder a defnyddio'r iaith



Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg
gywir



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar
gyfer heddiw a chenedlaethau'r
dyfodol



Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i
alw rhywle'n 'gartref'



Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu
economi'r ynys



Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r
afael â newid a gweithio at fod
yn sefydliad sero net erbyn
2030

Ein Dull Hunanasesu

Cafodd y broses o fonitro perfformiad yr holl awdurdodau lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad, ei sefydlu fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses hunanasesu yn flynyddol gan gynnwys nodi gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ogystal â defnyddio adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig.

Yn ystod 2023, gwnaethom adolygu ein dull hunanasesu a gwneud nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Gwnaethom weithio ar y cyd gyda Gwasanaethau ar draws y Cyngor i addasu'r templed er mwyn canolbwyntio ar pedwar maes allweddol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y pedwar prif faes yw:



Cynllunio Gwasanaeth a
Pherfformiad



Cynllunio Ariannol



Cynllunio Gweithlu



Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac
Archwilio a Risg

Gwnaethom hefyd ganiatáu rhagor o amser fel bo Gwasanaethau'n gallu dechrau'r cyfnod casglu tystiolaeth. Fe wnaethom hefyd symud y cyfarfodydd herio gwasanaethau, a elwir yn Adolygiadau Gwasanaeth, o fis Ionawr i rhwng mis Mawrth a mis Mai er mwyn sicrhau bod data blwyddyn ariannol lawn ar gael i'w ddefnyddio. Credem fod hyn wedi cryfhau'r broses yn seiliedig ar ein profiadau o flynyddoedd blaenorol. Byddem yn parhau i adolygu ein prosesau hunanasesu bob blwyddyn a gweithredu newidiadau na chawsant eu gweithredu yn ystod 2024/25.

Mae hunanwerthuso yn rhan annatod o unrhyw broses i wella sefydliad, a hynny at ddibenion hunansicrhau; fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod cwblhau hunanwerthusiadau i safon hefyd yn darparu sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheolyddion a thrigolion.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 9 ohonynt) i gwblhau hunanwerthusiad - gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd a ystyriwyd yn bwysig er mwyn mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu

perfformiad yn erbyn maen prawf diwedddaredig a restrir isod ac yna cawsant eu herio ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig yn yr Adolygiadau Gwasanaeth:

Cyfradd Perfformiad	Disgrifiad
Rhagorol	Perfformiad sy'n mynd tu hwnt i ddisgwyliadau'n gyson ac sy'n dangos cyfraniad rhagorol tuag at gyflawni amcanion strategol y Cyngor.
Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau	Gwasanaeth effeithiol sy'n perfformio'n dda, ac sy'n cyflawni canlyniadau rhagorol y tu hwnt i'r hyn a disgwyilir.
Bodloni disgwyliadau	Perfformiad sy'n bodloni safonau sefydledig a chyflawni rhwymedigaethau statudol ac anstatudol ac sy'n ymwybodol o'r meysydd sydd angen eu gwella.
Angen gwelliannau	Perfformiad sy'n disgyn dan y safonau disgwyliedig ac sydd angen camau adferol gan y Gwasanaeth.


Gofynnwyd i Wasanaethau unigol nodi meysydd i'w gwella yr oedd angen iddynt ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol. Mae'r meysydd i'w gwella hyn wedi'u cynnwys yn yr hunanasesiad yma, fodd bynnag mae rhai wedi'u cynnwys mewn maes ehangach i'w wella ar gyfer y Cyngor a byddant yn cael eu rheoli gan wasanaeth arweiniol sydd wedi'i nodi yn yr adran 'beth allwn ni ei wneud yn well a sut?' yn yr adroddiad hwn.

Mae meysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaethau unigol yn cael eu monitro fel rhan o'r broses Adolygu Gwasanaeth.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 yn ogystal â gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, gan ateb y cwestiynau canlynol mor syml â phosibl:

- Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wella a sut?

Mae'r Hunanasesiad yn ffurfio rhan hanfodol o'n trefniadau rheoli perfformiad fel y gellir ei weld yn y diagram isod –



Am ragor o fanylion ar sut rydym yn monitro ac yn asesu perfformiad, ewch i <https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx>.

Cynllunio Gwasanaeth a pherfformiad

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau



Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gwasanaethau yn arf hanfodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'n nodi beth fydd gwasanaethau'n ei ddarparu, yn darparu trywydd clir ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun y Cyngor, ac yn sicrhau atebolrwydd am ganlyniadau. Yna mae rheoli perfformiad yn rhoi hyn ar waith drwy alluogi'r cyngor a'i staff i gynllunio, monitro ac adolygu blaenoriaethau drwy amcanion strategol, gwasanaethol ac unigol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant parhaus.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad fod gan y Cyngor afael da ar Gynllunio Gwasanaeth, yn ogystal â gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a sut wireddu'r weledigaeth honno. Mae gan y cyngor awydd cryf i wneud gwelliannau parhaus ac mae'n onest wrth adolygu ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gweithgareddau blynyddol a threfniadau monitro.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Amcanion Clir a Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Mae gan y cyngor weledigaeth glir ar waith gydag amcanion mesuradwy ar gyfer darpariaeth gwasanaeth, sy'n cyd fynd ag anghenion y gymuned a gofynion deddfwriaethol. Mae gan y cyngor amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir a DPAAu mesuradwy sy'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau strategol a'i nodau darparu gwasanaeth.	• Cynllun y Cyngor • Gwerthoedd y Cyngor • Cefnogi strategaethau a chynlluniau • Moderneiddio cymunedau sy'n dysgu a datblygu strategaeth y Gymraeg • Cod Llywodraethu Lleol – tudalennau 12-16, 20-22 • Cerdyn Sgorio Corfforaethol
Casglu a Dadansoddi Data – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth drwy fonitro data'n rheolaidd, dadansoddi data a nodi tueddiadau o'r data i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r cyngor yn cymharu perfformiad â chynghorau eraill pryd bynnag y bo modd i sicrhau bod y perfformiad yn unol â'r disgwyliadau ac mae'n nodi meysydd i'w gwella.	• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth • Dangosfyrddau PowerBI; sero net, taclo tlodi, profiad y cwsmer • Stats Cymru • Data Cymru • Clybiau Clustnodi (data ddim wedi'i gyhoeddi) • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 9 • Penderfyniadau Pwyllgor y Cyngor

Monitro ac Adrodd Rheolaidd – Mae'r cyngor yn sicrhau atebolrwydd a chywirdeb o ran rheoli perfformiad drwy fonitro perfformiad yn erbyn DPAAu sefydledig yn rheolaidd a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar berfformiad i aelodau etholedig ac uwch arweinwyr, swyddogion, a'r cyhoedd.	• Cofnodion Pwyllgor y Cyngor • Adroddiad Perfformiad Blynnyddol • Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a Chod Llywodraethu Lleol • Adroddiad Blynnyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol • Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR)
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Mae'r cyngor yn ymgysylltu'n gyson gyda thrigolion Ynys Môn, busnesau, partneriaid a staff, i gasglu adborth ar ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau, gan sicrhau bod y gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion y gymuned.	• Ymgynghoriadau cyhoeddus • Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) a chanlyniad yr arolwg • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 • Arolwg Preswylwyr • Arolwg Staff
Arloesi ac Addasu – Mae gan y cyngor enw da ar gyfer arloesi ac mae'n addasu'n dda i amgylchiadau sy'n newid.	• Porth car solar mewn meysydd parcio'r cyngor • Uned Ysgol y Graig 'Fach' yn Net Sero • Porthladd rhydd • Rhaglen Adfywio Caergybi - Ciosg glan môr Caergybi • Cymunedau Dementia Gyfeillgar • Rhaglen 'Swim Safe' Môn Actif • Cynllun Dialysis Gartref Ynys Môn
Cydymffurfio gyda Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddio – mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol, rheoliadau a dyletswyddau statudol, ac mae'n sicrhau atebolrwydd a chywirdeb yn ei brosesau gwneud penderfyniadau	• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynnyddol • Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7
Diwylliant Gwelliant Parhaus – Mae gan y cyngor ddiwylliant o welliant parhaus mewn arferion rheoli perfformiad, trwy adolygiadau a gwerthusiadau rheolaidd sy'n galluogi'r cyngor i addasu i amgylchiadau sy'n newid, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac ysgogi gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau.	• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22

Cynllunio Ariannol

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau



Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio ariannol yn cynnwys rheoli arian yn strategol. Mae'n ymwneud ag asesu'r sefyllfa ariannol bresennol, cyflawni amcanion a chreu cynlluniau cynhwysfawr er mwyn dynodi adnoddau a chynnal sefydlogrwydd cyllidol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud rhagolygon ariannol ar gyfer y tymor byr (hyd at 1 mlynedd), y tymor canolig (1-3 blynedd) a'r tymor hir (3+ o flynyddoedd), er mwyn sicrhau y gall y cyngor fodloni ei rwymedigaethau ariannol a darparu gwasanaeth i'r gymuned.

Mae gan y cyngor afael da ar Gynllunio Ariannol, ac mae cynllun ariannol clir ar waith er mwyn cyflawni gweledigaeth y cyngor.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Rheoli Cyllideb – Mae gan y cyngor broses rheoli cyllideb gref ar waith sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwasanaeth, ac sydd hefyd yn lleihau'r risg o orwariant neu ddiffyg ariannu.	Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22
Sefydlogrwydd Ariannol – Mae gan y cyngor gronfeydd wrth gefn digidol a lefelau dyled isel perthynol â'i incwm, ac mae'n dangos arferion rheoli arian doeth sy'n sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.	Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Datganiad ar Gyfrifon Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22
Dyrannu Adnoddau'n Effeithiol – Mae'r cyngor yn dyrannu ei adnoddau ariannol yn effeithiol er mwyn bodloni'r galw ar y gwasanaeth a gofynion darparu, yn ogystal â chynyddu ei werth am arian.	Llyfr y Gyllideb Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 14-16
Cywirdeb ac Atebolrwydd – Mae gan y cyngor broses adrodd ar reolaeth ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb yn chwarterol a datganiad ar gyfrifon blyneddol.	Datganiad ar Gyfrifon Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 23-24 Proses Gosod Cyllideb
Cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Ariannol – Mae'r cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda rheoliadau ariannol perthnasol, safonau cyfrifo a gofynion cyfreithiol gan gynnwys cyllid craidd a chyllid grant.	Datganiad Llywodraethu Blyneddol Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7
Monitro – Mae'r cyngor yn monitro'n rheolaidd ac yn goruchwyllo perfformiad ariannol, gan gynnwys adroddiad ar y gyllideb refeniw bob chwarter, y gyllideb gyfalaf a chyfrifon y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wrth sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.	Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith

Asesiadau Archwilio – Mae’r cyngor wedi derbyn adroddiadau archwilio cadarnhaol gan archwylwyr gan gynnwys Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol, sy’n darparu dilysiad annibynnol ar gyfer arferion rheolaeth ariannol.

- [Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio](#)
- [Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol](#)
- [Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol](#)

Cynllunio Gweithlu

Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gweithlu yn broses lle mae'r cyngor yn dadansoddi anghenion presennol ei weithlu ac anghenion y dyfodol yn erbyn ei ymrwymadau, cynlluniau ac amcanion. Mae'n galluogi'r cyngor i benderfynu sut y bydd yn recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw gweithwyr sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol, gan fyfyrir ar egwyddor cynllunio tymor hir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gan y cyngor ddealltwriaeth gref o gynllunio gweithlu, ac mae ganddo'r gofynion ar waith er mwyn cyflawni ei ymrwymadau, cynllunio ac amcanion o safbwynt adnoddau dynol. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r swyddi sy'n fwy heriol i'w recriwtio ac mae ganddo gynlluniau ar waith i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd recriwtio.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Hyfforddiant a Datblygu – Mae'r cyngor yn darparu nifer o gyfleoedd i staff ymgymryd â hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd i wella sgiliau sy'n galluogi gweithwyr i ddatblygu ac addasu i ofynion gwaith sy'n parhau i newid yn ogystal â gwelliannau technegol.	• Adroddiad blynyddol yr iaith Gymraeg • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 • Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddiant • Academi Môn • Cyrsiau byr i staff
Cynllunio Gweithlu – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gael y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, a sicrhau cydymffurfiaid gydag amcanion strategol y cyngor a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau olyniaeth i adnabod a datblygu arweinwyr y dyfodol a phersonél allweddol, fydd yn sicrhau parhad a chynaliadwyedd.	• Strategaeth Cynllunio Gweithlu • Strategaeth Rheoli Risg Pobl • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19
Buddion gwaith – Mae'r cyngor yn cynnig nifer o fuddio i staff, gan gynnwys gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cymorth llesiant ac iechyd galwedigaethol, pensiwn gwaith a nifer o bolisiau eraill sydd wedi'u dylunio er mwyn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith staff.	• Gweithio hyblyg (Hybrid / Opsiynnau i weithio'n hyblyg / ymddeol yn hyblyg) • Cynllun beicio i'r gwaith • Manteision Môn

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau



Adolygu perfformiad – Mae gan y cyngor system glir ar gyfer mesur perfformiad gweithwyr, cydymffurfiaeth gyda strategaethau'r cyngor ac amcanion strategol, a datblygiad gyrfaol a hynny drwy ei drafodaethau blynyddol gyda staff, adolygiad blynyddol ar y gweithlu a rheolaeth talent effeithiol.	• System werthuso • Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Corfforaethol • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19
Ymgysylltiad gyda Gweithwyr a'u Boddhad – Mae gan y cyngor sawl ffordd o ymgysylltu gyda gweithwyr, gan gynnwys holiaduron staff a mecanweithiau adborth eraill sy'n ffordd o gyfathrebu'n effeithiol gyda staff ac yn fodd o sicrhau amgylchedd gwaith lle gall staff ffynnu a bod yn frwdfrydig.	• Presenoldeb staff • Cadw staff • Holiaduron staff • Sesiwn Briffio Aelodau • Fforwm Môn • Y Ddolen • Diweddariad gan y Prif Weithredwr • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19



Llywodraethu: Rheoli Risg, Archwilio, Caffael a Chontractau

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi a rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar amcanion y cyngor mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r cyngor. Mae'n helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae archwilwyr allanol a rheoleiddwyr yn craffu ar brosesau rheoli a llywodraethu, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnal atebolrwydd cynghorau ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol. Mae rheoli caffael yn canolbwyntio ar gaffael nwyddau neu wasanaethau am y tro cyntaf, tra bod rheoli contractau yn canolbwyntio ar reolaeth barhaus a chydymffurfiaeth y cytundebau hynny unwaith y byddant ar waith. Mae'r ddwy broses yn hanfodol i gaffael a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyngor i weithredu a chyflawni amcanion allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r cyngor yn monitro ac yn adolygu'r risgiau strategol a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith yn rheolaidd i'w monitro ac mae ganddo berthynas ragorol â rheoleiddwyr ac archwilwyr. mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o reolau a gweithdrefnau caffael, ac mae trefniadau rheoli contract yn gweithio'n dda. Mae prosesau a gweithdrefnau cyffredinol yn gryf ac mae diwylliant y sefydliad yn sicrhau eu bod yn arferion hanfodol mewn gweithgareddau dydd i ddydd.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Adnabod Risgiau – Mae gan y cyngor brosesau cadarn ar waith i nodi ac asesu risgiau ar draws pob maes gweithredu, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, strategol a chydymffurfio.	• Strategaeth Rheoli Risg • Fframwaith Rheoli Risg • Cofrestr Risg Strategol • Cofrestr Risg Gwasanaeth • Cofrestr Risg Prosiect • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24
Lliniaru Risgiau – Mae'r cyngor yn dangos arferion rheoli risg rhagweithiol gyda'r nod o leihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau andwyol trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau a rheolaethau lliniaru risg effeithiol i fynd i'r afael â nhw.	• Strategaeth Rheoli Risg • Fframwaith Rheoli Risg • Cofrestr Risg Strategol • Cofrestr Risg Gwasanaeth • Cofrestr Risg Prosiect • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24

Swyddogaeth Archwilio Mewnol – Mae gan y Cyngor dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chynghor i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig a lleyg ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor ac mae'n un o elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei chenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cynghor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg.	• Strategaeth Archwilio Mewnol • Siarter Archwilio Mewnol • Diweddariadau Archwilio Mewnol • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 20-24 • Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol
Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr – Mae'r cyngor yn onest ac yn llwyr gefnogi ei archwilwyr allanol a rheoleiddwyr ar bob agwedd ar fusnes y cyngor gan gynnwys cyllid, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gweithgareddau corfforaethol eraill sydd yn eu tro yn darparu dilysiad annibynnol o'i reolaethau a'i arferion mewnol.	• Adroddiad Monitro Archwilio Allanol • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol • Adroddiadau Estyn • Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru
Cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a Chaffael Moesegol – Mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl safonau a rheoliadau caffael, ac mae pob contract yn cael eu reoli felly pan fydd angen ei adnewyddu neu pan fydd angen un newydd. Mae'r cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud yn ddiduedd ac er lles gorau'r cyngor a'r gymuned drwy gynnal safonau moesegol mewn prosesau caffael, gan gynnwys tegwch, uniondeb, ac osgoi gwrthdaro buddiannau.	• Canllaw Caffael • Cynllun Strategol Caffael 2024 i 2029 • Polisi Caffael TG • Cytundeb a pholisi prosesu data • Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Adolygiad Caffael STAR a Chynllun Gweithredu • Diogelu mewn caffael a chontractio • Polisi Caffael Cynaliadwy • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7
Rheoli Contractau a Monitro Perfformiad – Mae'r cyngor yn sicrhau bod cyflenwyr yn darparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â thelerau a safonau y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad ei gyflenwyr a'i gontractwyr yn seiliedig ar DPA, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gofynion contract y cytunwyd arnynt.	• Strategaeth Rheoli Contractau • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Isod, gweler y meysydd sydd wedi'u nodi fel cyfleoedd i wella a'u monitro yn ystod 2024/25.

Materion gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
1. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.	- Datblygu Cynllun Strategol Data gyda'r nod o ddod yn Gyngor sy'n cael ei lywio gan ddata - Parhau i symud ymlaen â'r 4 blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol Digidol - Datblygu'r rhyngwyneb 'Chatbot' i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid - Adolygu canolfannau cyswllt cwsmeriaid ac ystyried argymhellion i wella profiad y cwsmer	Trawsnewid	Mawrth 2027
2. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd.	Gweithredu'r camau cytunedig o'r Cynllun Gwella Caffael	Adnoddau	Mawrth 2026
3. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid.	- Gwneud y defnydd gorau o'r grantiau sydd ar gael i'r cyngor - Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) - Adnabod arbedion ar gyfer 2026/27 ymlaen - Adolygu a symleiddio prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith y gostyngiad mewn cyllid	Adnoddau	Mawrth 2026

Materion gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
4. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.	• Diweddarau a cyhoeddi Cynllun Rheoli Stad man-ddaliadau newydd • Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadurol newydd • Rhesymoli asedau'r cyngor yn unol â'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mawrth 2026
5. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.	• Adolygu, diwygio a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer Busnes y Cyngor a'r Uned Ddarparu • Gwasanaethau i fyfrio a gweithio gydag Adnoddau Dynol i wneud pob ymdrech i 'dyfu staff eich hunan' trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n wedyn yn gwella recriwtio a chadw staff. • Cynllun graddedigion Dyfodol Môn – parhau â'r rhaglen yn 25/26 - gan greu cyfleoedd deinamig i raddedigion uchelgeisiol ddatblygu sgiliau arbenigol a dechrau gyrfa gyda'r cyngor.	Trawsnewid	Mawrth 2026

Datganiad Sefyllfa Allbwn Gwasanaethau'r Cyngor – 2025

Isod, sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2025

Gwasanaeth	Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad	Cynllunio Ariannol	Cynllunio Gweithlu	Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac Archwilio a Risg
Oedolion	Rhagorol	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Bodloni
Plant a Theulueodd	Rhagorol	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt
Busnes y Cyngor	Bodloni	Angen gwelliannau	Bodloni	Bodloni
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Bodloni	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Bodloni
Tai	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Bodloni
Dysgu	Mynd tu hwnt	Rhagorol	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Mynd tu hwnt	Rhagorol	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt
Adnoddau	Mynd tu hwnt	Rhagorol	Meets	Mynd tu hwnt
Trawsnewid	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Rhagorol	Mynd tu hwnt
Allbwn Cyffredinol	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt	Mynd tu hwnt

Cynnydd yn erbyn y materion gwella a nodwyd o'r hunanasesiad blaenorol

Mae'r tabl yn amlinellu'r camau gwella a nodwyd y llynedd a gellir gweld diweddariad ar y cynnydd isod.

Materion gwella a nodwyd	Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd
1. Mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol ar ôl mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028	Trawsnewid	Dyluniwyd Cerdyn Sgorio Corfforaethol newydd ac fe'i hadroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol.
2. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.	Trawsnewid	Mae'r Cynllun Strategol Digidol bellach ar waith gyda'r nod o ddarparu cyfarwyddyd a gweledigaeth glir ynglŷn â TG gorfforaethol yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth y Cyngor o ran darparu gwasanaeth TGCh. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno system ffôn newydd yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o'i swyddfeydd a safleoedd. Cwblhawyd asesiad aeddfedrwydd data yn ystod y flwyddyn ac mae gweithgor wrthi'n gweithio ar y camau nesaf i wella'r data yn cynnwys strategaeth data newydd.
3. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Caffael 2023 newydd.	Adnoddau	Cafodd y Cynllun Caffael Strategol a'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau diwygiedig eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2024. Daeth Deddf Caffael 2023 i rym ym mis Chwefror 2025. Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi lwyddiannus ddechrau'r flwyddyn, a derbyniodd dros 100 aelod o'r staff hyfforddiant ar y ddeddf caffael newydd a ddarparwyd yn fewnol. Mae llawlyfr caffael a thempledi hefyd ar gael. Mae Rheolwr Caffael wedi cael ei benodi dros dro yn dilyn trafferthion recriwtio.

4. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid	Adnoddau	Llwyddodd y Cyngor i sicrhau grantiau cyfalaf gwerth £47.748m yn ystod 2024/25, sy'n cyfateb i 61% o'r holl gyllid cyfalaf yn 2024/25. Cafodd y CATC ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2027/28 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, ac mae cyfnod y cynllun wedi cael ei ymestyn o 2 i 3 blynedd. Yn ystod y broses o osod y gyllideb yn gynnar yn 2025 cafodd arbedion gwasanaeth eu cynnig er mwyn ymgynghori arnynt. Bydd modd i arbedion a gafodd eu nodi ond na chafodd eu gweithredu yn 2025/26 gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2026/27. Mae gwaith ar y gweill ar draws y gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd o symleiddio prosesau er mwyn lleihau costau. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer costau newid wedi cael ei sefydlu i ariannu unrhyw gostau'n gysylltiedig â gweithredu newidiadau. Mae enghreifftiau o'r cyllid a ddarparwyd hyd yma'n cynnwys: 1. Incwm Morwrol – i ariannu'r gost o brynu a gosod peiriannau Sglodyn a Rhif Adnabod Personol (Chip & PIN) fel y gall ymwelwyr dalu am wasanaethau â cherdyn ar y traeth. 2. Adolygiad Trafnidiaeth – i ariannu'r gost o gynnal adolygiad allanol o ddarpariaeth trafndiaeth y Cyngor ar draws pob gwasanaeth, gyda'r nod o ganfod newidiadau er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynol am lai o arian. 3. Porth Mynediad i Ddinasyddion – sy'n caniatáu i Drethdalwyr, pobl sy'n hawlio Budd-daliadau Tai a landlordiaid gael mynediad at eu cyfrifon fel y gallent dderbyn gwybodaeth am eu cyfrif a diweddarau'r Cyngor ag unrhyw newidiadau yn electronig
---	-----------------	---


5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.	Priffyrdd, Gwastraff ag Eiddo	Cafodd yr holl gamau lliniaru i reoli RAAC yn adeiladu'r Cyngor eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddwyd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn ystod y flwyddyn. Cafodd System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur newydd ei mabwysiadu yn 2024 gyda'r nod o'i defnyddio i reoli asedau, gwaith cynnal a chadw a phrosiectau adeiladu'r Cyngor. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth rheoli asedau mân ddaliadau newydd a bwriedir cwblhau'r gwaith yn ystod 2025/26.
6. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.	Trawsnewid	Mae'r Cyngor yn dal i recriwtio ar gyfer yr Uned Darparwyr. Yn ystod 2024/25 roedd y cynllun Denu Talent yn canolbwyntio ar y Gwasanaethau Oedolion, yn benodol ceisio recriwtio i swyddi sy'n anodd eu llenwi. Cymerodd pum person ifanc ran mewn profiad gwaith 10 wythnos o hyd, a phenodwyd dau i swyddi parhaol yn dilyn hynny. Adolygwyd y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer Rheoli Risgiau'n gysylltiedig â Phobl yn ystod y flwyddyn. Cafodd tudalennau Gyrfaoedd newydd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor (Swyddi a Gyrfaoedd). Mae pwyslais o hyd ar geisio cadw staff, yn enwedig mewn meysydd â throsiant uchel. Roedd trosiant staff yn 8% yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 9% y flwyddyn flaenorol, ac roedd lefelau cadw staff yn tua 93% ar gyfer 24/25.

Adroddiad Perfformiad


Uchafbwyntiau Perfformiad Allweddol

Gellir gweld rhai o brif uchafbwyntiau perfformiad eleni isod.

Cynnydd mewn perthynas â'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol



Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2022/23 i 2024/25




Cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r tudalennau isod yn crynhoi cynnydd y Cyngor yn ystod 2024/25 tuag at gyflawni yr Amcanion Llesiant, Cynllun y Cyngor a'r amcanion tymor hir ar gyfer 2028.

Mae'r dystiolaeth fanwl a'r diweddariadau sy'n sail i'r crynodebau hyn ar gael yn Atodiad 1, lle eglurir statws CAMG a'r cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu yn 24/25 yn llawn.

Gyda'i gilydd, mae'r adrannau hyn yn dangos sut mae'r Cyngor yn symud ymlaen o gamau gweithredu blynyddol tymor byr (ymrwymiadau 24/25) tuag at gyflawni ei amcanion hirdymor (canlyniadau erbyn 2028).

Mae'r darlun isod yn dangos sut mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn cysylltu â'r diweddariadau manwl yn Atodiad 1, a ddangosir fel '24/25 ymrwymiad' isod.



Mae pob un o'r tablau isod yn nodi:

- beth mae'r Cyngor yn gobeithio'i gyflawni **erbyn 2028** (y canlyniadau tymor hwy),
- beth yr ydym wedi **ymrwymo i'w gyflawni yn ystod 2024/25** (o'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 24/25), a
- faint o gynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Yr Iaith Gymraeg	Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn addas er mwyn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf pan ddaw'n amser i'w hadolygu yn 2026	Ar Amser	• Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor • Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Diweddarau ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Ar Amser	• Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Defnyddio rhaglenni grant i ddatblygu'r Gymraeg yn yr economi a gyda busnesau	Wedi Cwblhau	• Rhoi yr ail rhan o cynllun Arfor ar waith drwy ○ Ddarparu 15 Grant Cymunedau Mentrus i fusnesau ○ Cefnogi 30 o fusnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Ehangu ein cynnig o hyfforddiant fel bod staff, cyngorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys yn cael mwy o gyfle i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg.	Ar Amser	• Darparu cyfleoedd i staff ac aelodau etholedig fel y gallant wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy: ○ Gynnal tri dosbarth iaith Gymraeg ○ Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ○ Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle • Hybu'r ap OgiOgi ap i annog rhieni a gwarcheidwaid i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gyda'u plant	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Addysg	Sicrhau bod y strategaeth foderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gydag arweinyddiaeth gref gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol	Ar Amser	- Darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ategol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r unigolyn a'r ysgol - Gyrru'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn ei blaen drwy - Agor yr adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig - Ymgynghori ar ddatblygu Ysgol Uwchradd Caergybi - Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar yr ynys - Gwella Ysgol Santes Fair; a - Darparu ystafelloedd cymunedol yn Ysgol Morswyn, Ysgol Llanfawr ac Ysgol y Graig	Gwyrdd
Addysg	Datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol trwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg	Ar Amser	- Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith - Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Uwchradd Caergybi - Sicrhau bod gan bob disgybl blwyddyn 6 gynllun i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg	Gwyrdd
Addysg	Sicrhau profiadau a chynnydd gorau phosib i blant a phobol ifanc trwy wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob cymuned dysgu ar draws yr ynys	Ar Amser	- Galluogi i blant a theuluoedd gael mynediad at raglenni sy'n cynnig gweithgareddau addysgol yn y gymuned y tu allan i oriau ysgol yn cynnwys gweithgareddau gyda Môn Actif, Gogledd Cymru Actif, y gwasanaeth ieuenctid, Urdd Ynys Môn a'r Cynllun Bwyd a Hwyl a chefnogi ymgyrch Pwysau Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau gordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig yn ein cymunedau - Sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu clywed drwy	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
			○ Ddarparu cyfleoedd iddynt ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n effeithio arnyn nhw ○ Trefnu i ysgolion ymweld â'r Cyngor a Siambr y Cyngor ○ Cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc a gwahodd siaradwyr gwadd; a ○ Sicrhau bod cyngorau ysgol yn cael cyfle i gwrdd â Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig Lleol ar gais • Darparu cyfleoedd i blant ysgol fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol yn Oriel Môn ac Archifau Ynys Môn • Cynyddu cyfleoedd llesiant yn ein hysgolion drwy ○ Gynnig cinio ysgol i 75% o ddisgyblion ○ Cefnogi ysgolion a disgyblion drwy'r rhaglen Ysgolion Iach a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl	
Addysg	Cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd	Ar Amser	• Gweithio mewn partneriaeth â Chymuned Ddysgu Gwynedd a Môn i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i oedolion ar hyd a lled Ynys Môn	Melyn

Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth	Ar Amser	- Integreiddio'r ddarpariaeth gofal dydd yn ardal Caergybi o fewn y gymuned - Ymgynghori ar y Strategaeth Gofal Dydd - Gweithio i leihau nifer y bobl ifanc a gadawyr gofal sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol drwy - Beilota hwb ymyrraeth gynnar yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, i dargedu disgyblion - Sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn dod yn ymwybodol o'r disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn gynharach - Targedu gadawyr gofal rhwng 18-24 oed sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant - Dod o hyd i gyflogwyr lleol a gwasanaethau'r cyngor a all ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc - Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif - Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif - Gweithio gyda Medrwn Môn a defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol wedi'u teilwra, yn cynnwys hyfforddiant ystyriol o drawma i staff a'r gymuned ehangach a gweithio tuag at ddiid yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma - Moderneiddio clybiau ieuenctid ac adolygu'r ddarpariaeth i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gwella ac ehangu'r ddarpariaeth tai a chymorth	Ar Amser	• Agor cynlluniau byw â chymorth newydd yn y Fali a Rhostrehwfa • Cynhyrchu rhaglen foderneiddio ar gyfer llety cymunedol • Adleoli'r Gwasanaethau Arbenigol Plant o adeilad sydd newydd gael ei adnewyddu	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ehangu'r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol	Ar Amser	• Cynyddu cyfranogiad yn yr hybiau cymunedol integredig drwy eu gwneud yn fwy hygyrch, darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mewn rhai hybiau • Lleoli'r gwasanaeth asesu cof (MAS) a'r gweithgareddau dementia ar y cyd yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni • Datblygu Rhwydwaith Oed Gyfeillgar, gan ganolbwyntio ar wyth maes y Cymunedau Oed Gyfeillgar • Cynnal Fforymau Pobl Hŷn mewn lleoliadau cymunedol i sicrhau bod gweithgareddau ar gael ar hyd a lled yr ynys • 400 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Datblygu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth	Ar Amser	• Dod o hyd i eiddo ar gyfer ein 4ydd a'n 5ed Cartref Clyd ar yr ynys • Darparu cyfleoedd i ofalwyr ifanc fel y gallant gymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim yng nghanolfannau Môn Actif • Gweithio gyda 250 o bobl ifanc i wella eu hiechyd a'u lles yn cynnwys cynnal gweithgaredd i gefnogi'r ymgyrch pwysau iach	Melyn
Tai	Agor trydydd cynllun tai gofal ychwanegol a gyda chynlluniau am y pedwerydd	Ar ei hôl hi	• Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy	Melyn

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Tai	Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau	Ar Amser	- Cynyddu'r gyfradd ymateb i ymholiadau yn ystod y cyswllt cyntaf boed hynny drwy ein sianeli digidol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb - Moderneiddio a diweddarau'r system ffôn - Gweithio tuag at ddiweddarau'r drysau mynediad mewn oddeutu 220 o dai a rennir yn barod ar gyfer y trosglwyddiad digidol	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Tai	Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II	Ar Amser	Paratoi Llwybr Ynni Targed ar gyfer stoc dai'r cyngor gan nodi sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau gwres fforddiadwy a datgarboneiddio	Gwyrdd
Tai	Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy	Ar Amser	Cynnal asesiad o'r farchnad dai leol a phrosbectws tai blynyddol	Gwyrdd
Tai	Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf	Ar Amser	- Datblygu 30 o gartrefi newydd - Prynu 15 o gyn dai cyngor yn ôl - Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 eiddo gwag - Helpu 10 prynwr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf	Gwyrdd
Economi	Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel	Ar Amser	- Darparu cymorth a chynghor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi - Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Great British Nuclear, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Economi	Cydweithio i wireddu amcanion economi cylcho	Ar Amser	Gweithio â Menter Môn i fuddsoddi'r £600k o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa'r Economi Gylchol i sefydlu lleoliadau 'trwsio' ar yr ynys	Gwyrdd
Economi	Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol	Ar Amser	- Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer yr unedau busnes yn Amlwch a gweithio â phartneriaid i ddod o hyd i ragor o gyfleoedd ariannu cyfalaf - Gyrru Strategaeth Canol Trefi Ynys Môn yn ei blaen drwy - Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynlluniau Canol Trefi unigol - Darparu cyllid Trawsnewid Trefi a Chreu Lleoedd i 30 o fusnesau; a - Sicrhau cyllid i fwy na 10 cynllun gwella eiddo	Gwyrdd
Economi	Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi yn lleol	Ar Amser	- Parhau i weithredu Cynllun Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn drwy sicrhau cyllid allanol gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) - Gweithio gyda Stena, Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn a sicrhau cyfleoedd buddsoddi ar gyfer Porthladd Caergybi, yn benodol - Cymeradwy'r achos busnes terfynol - Adfywio Porthladd Caergybi a sicrhau twf; a - Yr Awdurdod Iechyd Porthladd - Cyflawni rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Caergybi - Sefydlu 15 prosiect ar Ynys Môn a 10 prosiect rhanbarthol gydag arian o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (UKSPF) - Dylanwadu ar ddatblygiadau a datblygwyr y Rhaglen Ynys Ynni	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Economi	Cynyddu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau ac ymwelwyr	Ar Amser	- Cwblhau'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddech Naturiol Eithriadol (2023-2028) - Croesawu 52 o longau mordeithio i'r ynys - Cydweithio â Llywodraeth Cymru i wella'r gweithgareddau sydd ar gael i ymwelwyr	Gwyrdd
Economi	Ail ddatblygu safleoedd diwydiannol a thiroedd llwyd hanesyddol	Ar Amser	Datblygu'r Rhaglen Tiroedd Llwyd a'i rhoi ar waith i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol yn cynnwys; safle Alwminiwm Môn, Rhosgoch, Octel (Amlwch) a Peboc, Llangefni	Melyn
Newid Hinsawdd	Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed sero net 2030 o fewn cyrraedd	Ar Amser	- Adolygu'r Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 a'i roi ar waith; cyhoeddi dashfwrdd i gasglu data ynglŷn ag allyriadau carbon ein hasedau mewnol a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar allyriadau carbon erbyn mis Medi - Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy ychwanegu 13 o gerbydau carbon isel i'r fflyd (yn ddibynnol ar gyfalaf a chyllid grant) - Mabwysiadu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol CDLI newydd - i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ac yna i Lywodraeth Cymru i'w gytuno - Gosod systemau gwresogi carbon isel yn naw o adeiladau'r cyngor	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Cynyddu cyfraddau ailgylchu	Ar ei hôl hi	- Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r cyngor - Gweithio gyda phartneriaid i yrru'r amcanion allweddol yn y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn eu blaen er mwyn gwella'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu	Ambr

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG
Newid Hinsawdd	Sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion elfennol wrth gyrraedd penderfyniadau	Ar Amser	- Sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau drwy ddiweddarau templedi adroddiadau - Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru): - rhoi chwe chynllun bach ar waith - datblygu achos busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr - datblygu achosion busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr - Mabwysiadu a chyhoeddi strategaeth leol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r ynys	Ar Amser	- Rhoi cynlluniau teithio lleol ar waith yn Amlwch ac Ynys Cybi, yn ogystal â gwella'r seilwaith rhwng Malltraeth a Llanfairpwll - Penodi cyflenwr pwyntiau gwefru cerbydau trydan i osod pwyntiau gwefru ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid grant)	Gwyrdd

Perfformiad Cyffredinol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Roedd 82.5% o'r dangosyddion perfformiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn perfformio'n well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y flwyddyn.

Mae perfformiad y Cyngor o'r naill flwyddyn i'r llall yn gysylltiedig â dangosyddion cymharol (cyfanswm o 28) yn dangos bod 20 (72%) wedi gwella, 6 (21%) wedi gostwng a 2 (7%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

At ei gilydd roedd 71% o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro'r Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn ar y cerdyn sgorio yn amlygu rhywfaint o'r perfformiad da. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- 30 o fusnesau wedi derbyn cymorth i ddatblygu'r Gymraeg fel rhan o'r rhaglen ARFOR cyn iddo ddod i ben
- Dros 565,000 o ymweliadau i Ganolfannau Hamdden Ynys Môn lle cymerodd pobl ran mewn ymarfer corff yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 50,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Dim ond 1.9% o ddisgyblion oedd ddim mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol yn 2024, gwelliant o'r 4% a gofnodwyd yn 2023. Roedd hyn o bosib o ganlyniad i adnabod mwy o bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET a gweithio'n agos â hwy i ddod o hyd i ganlyniadau llwyddiannus
- Roedd 86% o denantiaid yn fodlon â'r gwaith atgyweirio ymatebol a gwblhawyd yn eu heiddo yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 80% o'i gymharu â 2023/24
- Mae bron i 98% o geisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu ar amser erbyn hyn
- Roedd pob categori yn ymwneud â ffyrdd yn uwch na'r targed gyda 1.8% o Ffyrdd A mewn cyflwr gwael, 1.6% o Ffyrdd B mewn cyflwr gwael a 7.3% o Ffyrdd C mewn cyflwr gwael

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu saith maes sy'n tanberfformio yn erbyn y targedau a osodwyd. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith wedi trafod y meysydd hyn a bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn arwain a monitro gwelliant. Mae'r dangosyddion yn cynnwys:

1. Nifer y plant a gymerodd ran yng ngwersi nofio Môn Actif yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd
2. Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd eu gosod)
3. Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach neu ganolig
4. Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl sylweddol
5. Cyfanswm y cwsmeriaid sydd â chytundeb angori blynyddol
6. Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio
7. Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen

Ceir rhagor o wybodaeth, yn cynnwys yr holl ddangosyddion, yn y fan yma: Cerdyn Sgorio Ch4 2024/25.

Arolwg Cenedlaethol Preswylwyr 2024

Trosolwg

Cymerodd y Cyngor ran yn *Arolwg Cenedlaethol Preswylwyr 2024*, a gydlynwyd gan Ddata Cymru, i ddeall yn well farn trigolion am wasanaethau lleol, ansawdd bywyd a lles ar draws Ynys Môn.

Cymerodd cyfanswm o 1,737 o drigolion ran, gan ddarparu adborth gwerthfawr sy'n helpu'r Cyngor i fesur cynnydd a llunio blaenoriaethau yn y dyfodol.

Beth ddywedodd trigolion wrthym

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn teimlo'n bositif am fyw ar Ynys Môn:

- 67% yn fodlon gyda'r ynys fel lle i fyw
- 85% yn argymhell Ynys Môn fel lle i fyw
- 86% yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd, a 65% yn teimlo'n ddiogel ar ôl tywyllwch
- 78% yn rhoi gradd da i ansawdd aer lleol
- 52% yn credu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel
- 41% yn credu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian
- 32% yn dweud eu bod yn ymddiried yn y Cyngor

Camau Nesaf

Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i helpu'r Cyngor i gryfhau'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â thrigolion, gwella dealltwriaeth o flaenoriaethau lleol, a pharhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hygyrch o ansawdd uchel.

Mae'r mewnweliadau hyn hefyd yn darparu meincnod pwysig ar gyfer tracio newidiadau am farn y cyhoedd dros amser, gan helpu'r Cyngor i fesur effaith ei waith a'i raglenni gwella.

Arolwg Staff 2024/25

Trosolwg

Yn ystod 2024/25, cynhaliodd y Cyngor Arolwg Staff er mwyn deall yn well safbwyntiau a phrofiadau staff o weithio i'r cyngor. Archwiliodd yr arolwg themâu megis arweinyddiaeth, cyfathrebu, diwylliant sefydliadol, lles, ac ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r adborth a gafwyd wedi darparu mewnwelediad gwerthfawr i'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r meysydd lle gellir gwneud gwelliannau.

Beth ddywedodd staff wrthym

Cafwyd **429 o ymatebion**, sy'n cynrychioli **cyfradd ymateb o 28%**. Grwpwyd y cwestiynau yn yr arolwg yn 12 thema, pob un yn cynnwys nifer o ddatganiadau yn archwilio profiadau staff, eu hymgysylltiad a diwylliant y gweithle.

Yn gyffredinol, tynnodd yr arolwg sylw at ymdeimlad cryf o falchder ac ymrwymiad ymhlith staff, ynghyd â safbwyntiau cadarnhaol ar waith tîm ac ymwybyddiaeth o gyfeiriad y Cyngor. Nododd hefyd feysydd i'w gwella ymhellach, gan gynnwys sut mae'r Cyngor yn cyfathrebu ar draws y sefydliad a sut y mae'n parhau i gefnogi llesiant a datblygiad yn y gweithle.


Themâu	% positif	Themâu	% positif
Balchder	80%	Newid	54%
Arweinyddiaeth Cyngor	63%	Cydweithio Partneriaethol	60%
Tîm Arweinyddiaeth	64%	Gofal Cwsmer	70%
Arweinyddiaeth Gwasanaeth	79%	Llesiant Staff	71%
Cynllun y Cyngor	63%	Cyfathrebu	73%
Datblygiad Sgiliau	74%	Bodlonrwydd Cyffredinol	85%

Camau Nesaf

Rhannwyd y canlyniadau gyda'r uwch arweinwyr a'r Pwyllgor Gwaith, a byddant yn sail i *Gynllun Gweithredu Arolwg Staff*. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar gynnal y meysydd cryf a nodwyd ac ar ymdrin â'r meysydd lle mae staff yn teimlo y gellir gwneud mwy o gynnydd. Drwy weithredu ar yr adborth hwn, nod y Cyngor yw cryfhau ei ddiwylliant, gwella cyfathrebu mewnol, a sicrhau bod staff yn teimlo'n werthfawr ac yn cael eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau allweddol i drigolion.

Aldro Refeniw Ariannol 2024/25

Mae'r alldro refeniw ar gyfer pob Gwasanaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, yn cynnwys y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), i'w weld yn y siart isod:



Atodiad 1 – Diweddariadau manwl ar y gwaith a gyflawnwyd yn 2024/25

Mae system CAMG (Coch, Ambr, Melyn, Gwyrdd) wedi'i dylunio i grynhoi perfformiad -

CAMG	Disgrifiad
Gwyrdd	Mae mwyafrif (90%+) y gwaith wedi cael ei gwblhau gyda ychydig iawn o eithriadau i'w cwblhau yn y flwyddyn ganlynol
Melyn	70% i 90% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol
Amber	50% i 70% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol neu rywfaent o'r gwaith wedi'i oedi
Coch	Mae llai na 50% o'r gwaith wedi cael ei gwblhau, neu nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud

Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Yr Iaith Gymraeg	Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor	Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd o wasanaethau ffôn y Cyngor a'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn benodol.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	Cynhaliwyd hunan-asesiad yn ystod y flwyddyn. Mae'r canlyniadau ar gael yn yr Adroddiad Blynnyddol ar y Gymraeg	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg	Cafodd Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2025	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Rhoi y cynllun Arfor ar waith drwy - Ddarparu Grantiau Cymunedau Mentrus fusnesau - Cefnogi 30 o fusnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg - Sicrhau bod Ynys Môn yn elwa o gynlluniau rhanbarthol	Mae'r £1m o arian grant a dderbyniodd fusnesau ar Ynys Môn i ddatblygu'r economi a'r Gymraeg wedi cael ei wario'n llawn erbyn hyn. Roedd y gronfa'n ariannu hyd at 70% o gost prosiectau, o £6,000 hyd at £75,000, yn cynnwys costau cyfalaf, staffio, hyfforddiant ac offer. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen Arfor 2, yn cynnwys y Gronfa Cymunedau Mentrus, a rhaglenni eraill a reolir gan y cyngor yn y fan yma.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Yr Iaith Gymraeg	Darparu cyfleoedd i staff ac aelodau etholedig fel y gallant wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy: a) Gynnal tri dosbarth iaith Gymraeg b) Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg c) Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle	Yn ystod y flwyddyn mae'r cyngor wedi darparu nifer o gyfleoedd i staff ac aelodau etholedig wella eu sgiliau iaith Gymraeg. a) Pum dosbarth Cymraeg ers mis Medi 2024; dosbarthiadau lefel mynediad, sylfaen a chanolradd wythnosol, cwrs magu hyder 10 wythnos a chwrs datblygu sgiliau iaith 10 wythnos. b) Ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys; • boreau coffi gyda dysgwyr a'u rheolwyr llinell, • rhannu her Gymraeg y mis i staff dros ebost, • derbyn cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar arferion y cyngor yn ystod dau ddigwyddiad hybu. c) Gweithgareddau ar y cyd fel rhan o is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn i gwblhau ymchwil ar arferion recriwtio. Mae swyddogion hefyd wedi bod yn rhan o is-grwpiau Fforwm Iaith Gymraeg Ynys Môn sydd wedi bod yn gweithio â gweithleoedd a darparwyr addysg.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Hybu'r ap OgiOgi ap i annog rhieni a gwarcheidwaid i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gyda'u plant	Cafodd yr ap OgiOgi ei hyrwyddo'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyda help yr hwylusydd rhan amser a benodwyd gyda nawdd a dderbyniwyd drwy'r rhaglen ARFOR tan fis Mawrth 2025. Rydym wedi ymweld â 51 grŵp rhiant a phlentyn, a siarad â 379 o rieni. O ganlyniad mae nifer y lawr lwythiadau wedi cynyddu.	Gwyrdd
Addysg	Darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ategol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r unigolyn a'r ysgol	Darparwyd rhaglen gyffredinol ar gyfer ysgolion yn ystod y flwyddyn. Mae staff ysgol yn cael cyfle i ddatblygu. Darparwyd cyfleoedd hyfforddi yn ystod diwrnodau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer staff ysgol.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Addysg	Gyrru'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn ei blaen drwy • Agor yr adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig • Ymgynghori ar ddatblygu Ysgol Uwchradd Caergybi • Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar yr ynys • Gwella Ysgol Santes Fair; a • Darparu ystafelloedd cymunedol yn Ysgol Morswyn, Ysgol Llanfawr ac Ysgol y Graig	Agorwyd uned 'fach' newydd Ysgol y Graig ym mis Medi 2024. Pan fydd yn weithredol bydd yr uned yn adeilad carbon sero net. Trefnwyd ymgynghoriad ar ddyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi yn ystod 2024/25 ac fe'i cynhaliwyd yn gynnar yn 2025/26. Bydd y safle newydd a'r datblygiad yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn hwyrach yn 2025/26. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ar adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 rhwng mis Ionawr a Mawrth 2025. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi trafod a phenderfynu i ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol a pharatoi cynllun strategol ar sut i gyflawni hyn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025. Mae ystafelloedd cymunedol Ysgol y Graig, Ysgol Llanfawr ac Ysgol Morswyn wedi cael eu cwblhau.	Gwyrdd
Addysg	Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith	Cafodd 96 o ddisgyblion eu trochi, a chafodd 30 disgybl gymorth uniongyrchol yng nghanolfan iaith Ysgol Uwchradd Caergybi.	Gwyrdd
Addysg	Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Uwchradd Caergybi	Mae Grŵp Prosiect Ysgol Uwchradd Caergybi wedi adrodd bod y cynnydd yn ôl y disgwyl a bod nifer o weithgareddau positif ar waith. Derbyniodd 4 athro gymorth iaith drwy gydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Derbyniodd 20 aelod o'r staff hyfforddiant drwy Sgil iaith i'w galluogi i ddysgu'n ddwyieithog.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Addysg	Sicrhau bod gan bob disgybl blwyddyn 6 gynllun i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg	Mae gan bob disgybl ym mlwyddyn 6 gynllun i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Hefyd, mae'r Ganolfan Iaith Gymraeg wedi lansio gwefan newydd i gefnog i rhieni ac athrawon. Mae siarter iaith Gymraeg ar waith ym mhob ysgol. Mae pob dalgylch yn cydweithio ar y cynllun grant iaith Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.	Gwyrdd
Addysg	Galluogi i blant a theuluoedd gael mynediad at raglenni sy'n cynnig gweithgareddau addysgol yn y gymuned y tu allan i oriau ysgol yn cynnwys gweithgareddau gyda Môn Actif, Gogledd Cymru Actif, y gwasanaeth ieuenctid, Urdd Ynys Môn a'r Cynllun Bwyd a Hwyl a chefnogi ymgyrch Pwysau Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau gordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig yn ein cymunedau	Mae MônActif a PIPYN wedi cydweithio i sicrhau bod gan bob plentyn cyn oed ysgol bwysau iach. Mae 11 ysgol gynradd wedi ymrwymo i gymryd rhan yn holiadur y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN). Mae'r ysgolion yn codi ymwybyddiaeth pan fydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal fel y gall disgyblion ddarparu adborth. Mae Chartwells, sy'n darparu prydau ysgol ar Ynys Môn ar hyn o bryd, yn ymweld ag ysgolion drwy gydol y flwyddyn i gael adborth gwerthfawr gan blant ar eu bwydlenni cinio.	Gwyrdd
Addysg	Sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu clywed drwy • Ddarparu cyfleoedd iddynt ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n effeithio arny'n nhw • Trefnu i ysgolion ymweld â'r Cyngor a Siambr y Cyngor • Cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc a gwahodd siaradwyr gwadd; a	Cynhaliwyd nifer o fforymau plant a phobl ifanc yn siambr y cyngor yn Llangefni yn ystod y flwyddyn. Mae cynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd yn mynychu'r fforymau i ddysgu a chydweithio i ymateb ar ran y plant a'r bobl ifanc. Ymwelodd dwy ysgol gynradd â Swyddfeydd y Cyngor am daith dywys, cwrdd â Chadeirydd y Cyngor ac uwch swyddogion yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaeth ynglŷn â gwaith y cyngor. Ymwelodd cyngorwyr lleol â nifer o ysgolion fel rhan o waith maes y Panel Sgriwtini Corfforaethol.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
	Sicrhau bod cynghorau ysgol yn cael cyfle i gwrdd â Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig Lleol ar gais		
Addysg	Darparu cyfleoedd i blant ysgol fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol yn Oriel Môn ac Archifau Ynys Môn	Ymwelodd sawl o ysgolion ag Oriel Môn a'r Archifau yn ystod y flwyddyn. Fe ymwelodd ysgolion oddi ar yr ynys ag Oriel Môn yn ogystal i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gweld arteffactau hanesyddol a dysgu amdanynt.	Gwyrdd
Addysg	Cynyddu cyfleoedd llesiant yn ein hysgolion drwy - Gynnig cinio ysgol i 75% o ddisgyblion - Cefnogi ysgolion a disgyblion drwy'r rhaglen Ysgolion Iach a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl	Mae cinio ysgol am ddim yn cael ei gynnig i bob plentyn oed cynradd ar Ynys Môn, ac mae 75% yn cymryd mantais o'r cynnig hwn ar hyn o bryd. Mae gwaith ar y gweill i gynyddu nifer y plant sy'n cymryd mantais o'r cynnig o ginio ysgol am ddim yn ogystal â'r rheiny sy'n gymwys mewn ysgolion uwchradd. Mae'r Tîm Ysgolion Iach yn cefnogi, hyrwyddo a chwilio am grantiau i gefnogi ysgolion gyda'r elfen iechyd a llesiant. Mae'r tîm ysgolion iach yn cefnogi'r gwaith Urddas Mislif yn y gwaith ac yn darparu nwyddau a chymorth yn y gwaith ac yn y gymuned e.e. clybiau chwaraeon. Mae'r tîm wedi gweithio â 6 ysgol ar gynllun cymorth iechyd a Diogelwch fel rhan o'u Cynlluniau Datblygu Ysgol.	Gwyrdd
Addysg	Gweithio mewn partneriaeth â Chymuned Ddysgu Gwynedd a Môn i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i oedolion ar hyd a lled Ynys Môn	Roedd dewis eang o gyrsiau ar gael ledled Gwynedd a Môn, i helpu oedolion i: - Ddysgu sgiliau newydd - Dychwelyd i addysg - Cynyddu eu gwybodaeth am feysydd sydd o ddiddordeb iddynt	Melyn

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
		Paratoi ar gyfer cyfleoedd dysgu pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth Mae Cymuned Ddysgu Gwynedd a Môn yn cynnig cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, o gyrsiau lefel mynediad i gymwysterau proffesiynol – pob un yn ddwyieithog lle bo modd, ac yn hygyrch i bawb. Cynhaliwyd nifer o gyrsiau yn ystod y flwyddyn, er bod y rhaglen fymryn ar eu hôl hi oherwydd problemau gyda rhai o'r darparwyr academiaidd. Bydd y gwaith yn parhau yn 2025 i helpu i gynyddu'r ddarpariaeth.	
Addysg	Mabwysiadu a dechrau defnyddio strategaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd	Mae Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar ffurf drafft o hyd. Cafodd y gwaith hwn ei ohirio yn 24/25 yn sgil y bwriad i gyhoeddi'r 7fed Fframwaith ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru. Gan fod y fframwaith hwn bellach mewn grym, mae'r gwaith ar y drafft wedi ailgychwyn.	Ambr

Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Integreiddio'r ddarpariaeth gofal dydd yn ardal Caergybi o fewn y gymuned	Mae'r ddarpariaeth gofal dydd yn ardal Caergybi wedi cael ei integreiddio yn y gymuned yn dilyn cau Canolfan Morswyn ym mis Medi 2024. Mae'r tîm cymunedol wedi cynnal grwpiau yn Llyfrgell Caergybi, Canolfan Hamdden Caergybi, Hwb Cymunedol Gwelfor ac adeilad y Sgwtiaid Môr ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ymgynghori ar y Strategaeth Gofal Dydd	Gwnaed rhywfaint o waith ar y strategaeth, fodd bynnag mae angen gwaith pellach. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 25/26.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gweithio i leihau nifer y bobl ifanc a gadawyr gofal sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol drwy - Beilota hwb ymyrraeth gynnar yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, i dargedu disgyblion - Sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn dod yn ymwybodol o'r disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn gynharach - Targedu gadawyr gofal rhwng 18-24 oed sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant - Dod o hyd i gyflogwyr lleol a gwasanaethau'r cyngor a all ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc	Roedd lleihad yn nifer y bobl ifanc NEET yn ystod y flwyddyn, o 4% yn 2024 i 1.9% yn 2025. Mae hwb ymyrraeth gynnar yn dal i gael ei beilota yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a bydd y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu yn 2026. Mae adnodd penodol yn y 5 ysgol uwchradd ar yr ynys i dargedu dysgwyr sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Mae'r cyngor yn dal i weithio ar ddarparu cymorth i adawyr gofal rhwng 18-24 sydd yn NEET. Sefydlodd y cyngor gynllun Profiad Gwaith Gwirfoddol rhwng Tachwedd ac Ionawr a oedd yn llwyddiannus. Nod y cynllun profiad gwaith gwirfoddol oedd lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 sydd yn NEET. Mae prosiect tebyg yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2025/26.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif	Croesawodd Canolfannau Hamdden Môn Actif bron i 566,000 o ymweliadau lle cymerodd bobl ran mewn gweithgareddau corfforol yn ystod y flwyddyn.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif	Cafodd dros £1m ei wario i uwchraddio cyfleusterau Môn Actif yn ystod y flwyddyn, a hynny drwy gyllid Cyfalaf, y gronfa SPF a Grant Cyfalaf Chwaraeon Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys: - Gosod lloriau newydd yn y brif neuadd ym Mhlas Arthur a Chaergybi - Gwella effeithlonrwydd ynni ym Mhlas Arthur drwy osod cladin a ffenestri newydd - Gwella CCTV ym Mhlas Arthur - Gosod goleuadau ar gaeau 3G canolfannau hamdden Amlwch a David Hughes	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gweithio gyda Medrwn Môn a defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol wedi'u teilwra, yn cynnwys hyfforddiant ystyriol o drawma i staff a'r gymuned ehangach a gweithio tuag at ddod yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma	Fel rhan o'r siwrnai i ddod yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma, mae dros 700 o staff wedi cymryd rhan mewn ymyraethau ystyriol o drawma/dysgu proffesiynol yn cynnwys staff partneriaid statudol, trydydd sector, aelodau etholedig, sefydliadau cymunedol a gofalwyr maeth. Roedd y rhain yn amrywio o sesiynau undydd i achrediadau llawn a fydd yn helpu i gefnogi ein plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r ffigwr hwn yn dal i gynyddu o'r naill wythnos i'r llall. Mae dros 70% o brif ofalwyr maeth y cyngor wedi cwblhau'r Diploma Ystyriol o Drawma ar gyfer Gofalwyr Maeth, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac mae'r adborth gan Ofalwyr Maeth wedi bod yn bositif. Bydd staff Heddlu Gogledd Cymru sy'n gweithio ar Ynys Môn a staff Cartref Clyd y Cyngor yn derbyn hyfforddiant yn 25/26 a bydd model Goruchwyllo Ystyriol o Drawma yn cael ei ymgorffori ym mhob Cartref Clyd.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
		Mae'r Cynghorydd Dyfed Jones, yr aelod sy'n gyfrifol am y portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn dilyn yr un trywydd â'r Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd y Cyngor, ac yn cwblhau'r Diploma Ystyriol o Drawma. Bwriedir ymweld â phob Ward ar Ynys Môn yn ystod 2025/26 er mwyn amlygu'r model Ystyriol o Drawma yn y cymunedau hynny. Y nod yw sicrhau bod y cymunedau'n creu Ynys sy'n Ystyriol o Drawma.	
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Moderneiddio clybiau ieuenctid ac adolygu'r ddarpariaeth i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol	Ar ôl cydweithio â Choleg Llandrillo Menai, Llangefni symudwyd y clwb ieuenctid o Ganolfan Hamdden Plas Arthur i'r coleg. Mae'r safle'n adeilad modern gydag offer newydd ac mae'n rhoi blas o gampws y coleg i ddarpar fyfyrwyr.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Agor cynlluniau byw â chymorth newydd yn y Fali a Rhostrehwfa	Llwyddodd y cyngor i ennill grant gwerth £700K drwy Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru i brynu eiddo byw â chymorth yn Rhostrehwfa a oedd ar werth ar y farchnad agored. Mae'r gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo. Prynwyd eiddo arall yn ardal Gwalchmai, a fydd yn cael ei addasu dros y misoedd nesaf. Bydd y prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â'r adran dai a'i ariannu'n rhannol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Mae'r cyfleuster yn y Fali bellach ar agor.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Cynhyrchu rhaglen foderneiddio ar gyfer llety cymunedol	Mae gan y cyngor gynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid a gwella opsiynau llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, trwy raglen o ddatblygiadau newydd. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â'r adran Tai a chymdeithasau tai lleol, rydym wedi gallu buddsoddi mewn sawl cynllun ac rydym yn parhau i	Melyn

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
		ddatblygu cynlluniau er mwyn uwchraddio mwy o eiddo yn unol â chyfalaf y cyngor.	
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adleoli'r Gwasanaethau Arbenigol Plant o adeilad sydd newydd gael ei adnewyddu	Mae'r gwasanaeth cymorth arbenigol i blant yn Haulfryn bron â bod yn barod ac mae rhywfaint o ddarpariaeth wedi bod ar gael yno yn ystod y flwyddyn. Ni fydd y gwasanaeth yn gwbl weithredol nes bo'r gwaith adeiladau wedi cael ei gwblhau ar yr eiddo.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Cynyddu cyfranogiad yn yr hybiau cymunedol integredig drwy eu gwneud yn fwy hygyrch, darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mewn rhai hybiau	Mae Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa wedi derbyn cyfanswm o £1m o gyllid i gwblhau gwaith addasu ac adnewyddu i'w hadeilad yng Nghapel Moreia yn Llangejni. Ers hynny, mae bobl hŷn a bregus wedi cael gwasanaethau cymunedol, gyda phartneriaid mawr Age Cymru Gwynedd a Môn, Bwyd Da Môn, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Cynnal Gofalwyr ac Adferiad yn rhoi gwasanaethau allweddol. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn gartref i'r corau arobryn Côr Ieuenctid Môn a Chôr Encor (i bobl dros chwe deg oed), dosbarthiadau comedi stand-yp a chysiau cymunedol gan Grŵp Llandrillo Menai. Daeth pobl o bob oed ynghyd mewn digwyddiad i ddathlu lansio hwb dementia wythnosol newydd yn Amlwch. Ymunodd disgyblion o Ysgol Gynradd Amlwch ag aelodau hŷn y gymuned a gofalwyr mewn prynhawn agored a gynhaliwyd gan Môn Actif ac Ynys Môn Oed-gyfeillgar yn y Neuadd Goffa. Bydd y ganolfan newydd, a gaiff ei redeg gan Dementia Actif Môn, yn ceisio cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn ogystal â'u gofalwyr. Gall pobl sgwrsio a chymdeithasu â'i gilydd dros baned. Roedd Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Age Cymru Gwynedd a Môn a Thai Môn hefyd yn bresennol gyda stondinau gwybodaeth am eu gwasanaethau.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Lleoli'r gwasanaeth asesu cof (MAS) a'r gweithgareddau dementia ar y cyd yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni	Mae Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa wedi derbyn cyfanswm o £1m o gyllid i gwblhau gwaith addasu ac adnewyddu i'w hadeilad yng Nghapel Moreia yn Llangefni. Nid yw wedi bod yn bosibl symud yr holl weithgareddau i'r ganolfan eto oherwydd y gwaith adnewyddu parhaus.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Datblygu Rhwydwaith Oed Gyfeillgar, gan ganolbwyntio ar wyth maes y Cymunedau Oed Gyfeillgar	Mae datblygiad Ynys Oed-gyfeillgar yn mynd o nerth i nerth. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â nifer o wasanaethau a sefydliadau trydydd sector i ehangu'r gwaith hwn. Mae'r prosiect Nifty60s a datblygiad Canolfan Dementia Ynys Môn yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni yn enghreifftiau o ddatblygiadau sy'n cefnogi iechyd a lles trigolion Ynys Môn. Ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷ yn Cymru, Rhian Bowen-Davies, ym mis Hydref 2024 i ddarganfod ein huchelgaïs i wneud Ynys Môn yn gymuned Oed-gyfeillgar mor ysbrydoledig. Dychwelodd am ymweliad wythnos o hyd ym mis Mawrth 2025 i drochi ei hun ymhellach yn y mentrau sydd ar gael ar Ynys Môn. Yn ystod ei hymweliad, llwyddodd y Comisiynydd i ymweld â chymunedau ledled Ynys Môn; ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion hŷ i glywed am eu profiadau a dysgu sut mae gwasanaethau a grwpiau lleol yn cefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda. Cyfarfu â Swyddogion allweddol y Cyngor ac Aelodau Etholedig, cyn gweld drosto'i hun yr ystod o fentrau sydd wedi helpu i greu Ynys Môn Oed-gyfeillgar. Cymerodd Rhian Bowen-Davies ran mewn ystod o fentrau dan arweiniad y gymuned sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr ynys i helpu pobl hŷ yn i aros yn actif, bod â chysylltiadau ac yn annibynnol.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
		Ymhlith y rhain roedd dosbarth Pêl-bicl 60+ yng Nghanolfan Biwmares, y grŵp Nifty 60s yng Nghaergybi a dosbarth sgiliau TG ffyniannus yn y Benllech a gyflwynwyd gan diwtoriaid o Grŵp Llandrillo Menai. Cyfarfu hefyd ag aelodau o nifer o sefydliadau a grwpiau oed-gyfeillgar megis Mencap Môn, Caffi Siop Mechell, Grŵp Cerdded Canolfan Glanhwfa a thrigolion yn Hafan Cefni.	
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Cynnal Fforymau Pobl Hŷn mewn lleoliadau cymunedol i sicrhau bod gweithgareddau ar gael ar hyd a lled yr ynys	Ym mis Ebrill 2024, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ac Age Cymru Gwynedd a Môn Fforwm Pobl Hŷn Ynys Gyfan yn M-Sparc; digwyddiad a ddaeth â phobl hŷn o bob cwr o'r ynys ynghyd. Yn y Fforwm, lle'r oedd dros 70 o bobl yn bresennol, cafwyd cyflwyniadau gan sawl siaradwr gwadd diddorol. Agorwyd y digwyddiad gan Brenda Roberts, Cadeirydd Cyngor Pobl Hŷn, a chaewyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Gwilym Jones, Hyrwyddwr Pobl Oed-gyfeillgar. Cynhaliwyd amserlen o gyflwyniadau amrywiol, gan gynnwys Cymorth Atal Sgamiau i wefan Action Fraud i Fwletin Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru. Cynigiodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth gymorth a chynghor sydd ar gael i helpu pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm a'u hegni. Cyfeiriodd y cyflwyniad at dariffau cymdeithasol, cymorth brys, awgrymiadau ar gadw'r tŷ'n gynnes, awgrymiadau ynghylch arbed ynni a mwy. Rhoddodd y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr gyflwyniad yn crynhoi beth yw Gofalwr Di-dâl a sut y gall gwasanaeth Cynnal Gofalwyr helpu. Cawsom wybod am wahanol gynlluniau, gan gynnwys y rhaglen seibiant 'Cynllun Seibiannau Byr', cymorth gartref a chyda hawliau gofalwyr, yn ogystal â llawer o rai eraill.	

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	400 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif	Statws Dementia-gyfeillgar i Ynys Môn - Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael ei anrhydeddu yn Gyngor Dementia-gyfeillgar cyntaf Gogledd Cymru, gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae prosiect Ynys Môn Dementia-gyfeillgar yn gweithio gyda chymunedau lleol i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yn lleol. Ymhlith y blaenoriaethau hyn mae nodi mannau mewn cymunedau y mae angen cyfleuster neu adeilad cymunedol dementia-gyfeillgar ar eu cyfer. Mae'r prosiect yn golygu gweithio gydag amrywiol sefydliadau, busnesau, grwpiau strategaeth, sy'n gweithio ar y cyd i greu Ynys Môn Dementia-gyfeillgar. Gweithgareddau'n dal i gael eu cynnal yn Amlwch, Caergybi, Llangoed, Llangefni, Bryngwran, a Bodorgan, a sôn am ddosbarth newydd yn Rhosneigr.	
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Dod o hyd i eiddo ar gyfer ein 4ydd a'n 5ed Cartref Clyd ar yr ynys	Bydd y 4ydd eiddo, sydd yn y camau cynllunio ar hyn o bryd, yn gyfleuster gofal seibiant yn ymyl Haulfryn sy'n darparu gofal seibiant i blant ag anableddau. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i brynu eiddo arall oddi ar y farchnad agored. Rydym yn dal i chwilio am eiddo addas sy'n cwrdd ag anghenion yr adran a rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru.	
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Darparu cyfleoedd i ofalwyr ifanc fel y gallant gymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim yng nghanolfannau Môn Actif	Mae cymorth a seibiant ar gael i ofalwyr ifanc drwy Brosiect Gofalwyr Ifanc yr NCH ac mae sesiynau nofio am ddim ar gael i ofalwyr ifanc yng nghanolfannau Môn Actif.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gweithio gyda 250 o bobl ifanc i wella eu hiechyd a'u lles yn cynnwys cynnal gweithgaredd i gefnogi'r ymgyrch pwysau iach	Mae MônActif a PIPYN wedi cydweithio i sicrhau bod gan bob plentyn cyn oed ysgol bwysau iach. Mae 11 ysgol gynradd wedi ymrwymo i gymryd rhan yn holiadur y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN). Mae'r ysgolion yn codi ymwybyddiaeth pan	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
		fydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal fel y gall disgyblion ddarparu adborth. Mae Chartwells, sy'n darparu prydau ysgol ar Ynys Môn ar hyn o bryd, yn ymweld ag ysgolion drwy gydol y flwyddyn i gael adborth gwerthfawr gan blant ar eu bwydlenni cinio.	
Tai	Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy	Mae cyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol newydd yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy. Mae cais cynllunio llawn wedi cael ei gyflwyno, ac mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod popeth yn ei le ar gyfer y gwaith adeiladu unwaith y bydd caniatâd cynllunio wedi cael ei roi.	Melyn
Tai	Cynyddu'r gyfradd ymateb i ymholiadau yn ystod y cyswllt cyntaf boed hynny drwy ein sianeli digidol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb	Lle bo modd rydym yn ymateb i bob ymholiad yn ystod y cyswllt cyntaf drwy Cyswllt Môn. Yn ystod 24/25 fe wnaeth Cyswllt Môn ddelio â 40% o'r ymholiadau. Rydym yn dal i ddatblygu ein sianeli digidol, er mwyn galluogi trigolion a chwsmeriaid eraill i wneud ymholiadau a dod o hyd i ddatrysiadau eu hunain ar-lein. Cafodd nifer o ffurflenni newydd eu hychwanegu i wefan y cyngor a'r system CRM (Rheoli Cysylltiadau Cwsmer) yn ystod y flwyddyn. Mae'r system ffôn newydd yn golygu ein bod yn gallu monitro galwadau sy'n dod drwy'r prif switsfwrdd yn well. Caiff data systemau ffôn a digidol ei fonitro'n rheolaidd gan wasanaethau'r cyngor ac mae gwelliannau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar y data hwnnw.	Gwyrdd
Tai	Moderneiddio a diweddarau'r system teleofal	Mae'r system teleofal wedi cael ei moderneiddio a'i huwchraddio'n llwyddiannus. Mae tenantiaid wedi nodi bod y newid hwn wedi bod yn gadarnhaol.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Tai	Gweithio tuag at ddiweddarau'r drysau mynediad mewn oddeutu 220 o dai a rennir yn barod ar gyfer y trosglwyddiad digidol	Mae'r trosglwyddiad digidol cenedlaethol wedi cael ei ohirio tan 2027, fodd bynnag mae'r cyngor wedi parhau i ddiweddarau drysau mynediad ei stoc tai a rennir. Mae pob drws wedi cael ei ddiweddarau ac maent yn cydymffurfio â'r trosglwyddiad digidol.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Amcan Strategol	Yn 24/25 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Tai	Paratoi Llwybr Targed Ynni ar gyfer stoc dai'r cyngor gan nodi sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau gwres fforddiadwy a datgarboneiddio	Cwblhawyd Arolwg Cyflwr Stoc, sy'n rhan hanfodol o'r gwaith o baratoi'r llwybr targed ynni, yn ystod y flwyddyn. Roedd yr arolwg yn asesu perfformiad effeithlonrwydd ynni a'r gofynion buddsoddi cychwynnol i gwrdd â SATC 23 yn ystod y flwyddyn. Ym mi Ionawr 2025 cafodd contract pum mlynedd ei roi ar waith i osod panel Solar PV a Storfeydd Batri ar draws ein stoc dai (lle bo hynny'n ymarferol). Derbyniodd y cyngor £500k yn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Bydd y Llwybr Targed Ynni yn nodi sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau gwres fforddiadwy a datgarboneiddio. Bydd llwybr ar gyfer holl stoc dai'r cyngor yn 25/26.	Gwyrdd
Tai	Datblygu 30 o gartrefi newydd	Cwblhawyd: • 10 tŷ newydd yn Llys Llwydiarth, Pentraeth • 10 tŷ newydd ym Mharc y Coed, Llangefni • 8 fflat yn Ffordd Garreglwyd, Caergybi • 4 fflat ym Mhlas Alltran, Caergybi	Gwyrdd

		Wrthi'n cael eu hadeiladu: • Cae Braenar, Caergybi – 23 uned • Bryn Estate, Llanfaethlu – 9 uned • Safle hen Ysgol Niwbwrch – 14 uned	
Tai	Prynu 15 o gyn dai cyngor yn ôl	• 15 eiddo newydd wedi cael ei brynu yn ystod y flwyddyn • 18 wedi cael eu hadnewyddu ac yn cael eu defnyddio fel stoc dai • 23 wrthi'n cael eu diweddarau ddiwedd Mawrth 2025	Gwyrdd
Tai	Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 eiddo gwag	• 63 eiddo gwag hirdymor wedi dod yn ôl i ddefnydd yn ystod 2024/25	Gwyrdd
Tai	Helpu 10 prynwr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf	• Awdurdodi 13 o geisiadau gan brynwyr tro cyntaf	Gwyrdd
Tai	Cynnal asesiad o'r farchnad dai leol (LHMA) a phrospectws tai blynyddol	Mae'r LHMA yn cyfuno gwahanol ddata i roi trosolwg cynhwysfawr o anghenion tai'r ynys. Mae'n amlinellu maint aelwydydd, y math o lety a geisir, lefelau incwm a data allweddol ynglŷn â'r farchnad dai, tai fforddiadwy ac eiddo gwag. Mae'r wybodaeth yn hanfodol i lunio dogfennau eraill megis Cynllun Datblygu Lleol y cyngor a'i Strategaeth Dai. Mae hefyd yn helpu'r cyngor a'i bartneriaid i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth tai ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod cymysgedd briodol o dai ar gael. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd yr LHMA terfynol a'r prospectws tai blynyddol ei anfon i Lywodraeth Cymru.	Gwyrdd

Economi	Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi	Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n agos â Menter Môn i ddatblygu Hwb Hydrogen yng Nghaergybi. Mae hyn yn cynnwys chwilio am gyfleoedd i gynyddu ei gapasiti a manteision lleol.	Gwyrdd
Economi	Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Great British Nuclear, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr	Mae'r cyngor yn dal i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a Great British Nuclear i sicrhau bod unrhyw brosiect niwclear yn Wylfa yn y dyfodol yn sicrhau cymaint o fanteision â phosib i Ynys Môn a chyn lleied â phosib o effaith ar yr ardal leol. Mae'r cyngor yn dal i weithio â'r ddwy lywodraeth a datblygwyr ynni i hyrwyddo'r cyfleoedd ar Ynys Môn a sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa o brosiectau ynni mawr. Mae'r cyngor hefyd yn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol a risgiau'n cael eu hamlygu yn gysylltiedig â phob datblygiad a chyfathrebu'r rhain â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bu ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwn drwy'r broses gynllunio statudol, a chyfeiriwyd yn benodol at y safleoedd solar arfaethedig yn Alaw Môn a Maen Hir. Cyflwynodd y Cyngor ei Adroddiad Effaith Lleol yn gysylltiedig ag Alaw Môn ym mis Hydref 2024.	Gwyrdd
Economi	Gweithio â Menter Môn i fuddsoddi'r 600k o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa'r Economi Gylchol i sefydlu lleoliadau 'trwsio' ar yr ynys	Drwy'r prosiect "Tyfu a Thrwsio" gyda Menter Môn, mae mentrau ailddefnyddio a thrwsio wedi cynyddu, ac mae gweithdai cymunedol a phartneriaethau newydd wedi rhoi ail wynt iddynt. Mae meter 'Ffiws' Menter Môn yn 'ofod gwneud' sy'n darparu offer, cyfarpar a thechnoleg mewn gwahanol leoliadau ledled Gwynedd ac Ynys Môn. Cynhaliodd Menter Môn bron i 70 o weithdai 'Ffiws' yn ystod 24/25 ac fe wnaeth dros 400 o bobl gymryd rhan.	Gwyrdd

		Mae treial wedi cychwyn gyda Hosbis Dewi Sant i ailddefnyddio eitemau addas o Benhesgyn (canolfan ailgylchu) a'u gwerthu yn eu siopau elusen.	
Economi	Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer yr unedau busnes yn Amlwch a gweithio â phartneriaid i ddod o hyd i ragor o gyfleoedd ariannu cyfalaf	Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer unedau busnes newydd yn Amlwch. Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus sylweddol yn ogystal sy'n dangos ein bod wedi ymgysylltu â dros 3000 o bobl leol a busnesau.	Gwyrdd
Economi	Gyrru Strategaeth Canol Trefi Ynys Môn yn ei blaen drwy • Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynlluniau Canol Trefi unigol • Darparu cyllid Trawsnewid Trefi a Chreu Lleoedd i 30 o fusnesau; a • Sicrhau cyllid i fwy na 10 cynllun gwella eiddo	Ar ôl ymgysylltu a chymunedau a busnesau, derbyniwyd grant refeniw gwerth £100,000 ar gyfer Canol Trefi i ariannu'r gwaith o baratoi Cynlluniau Creu Lleoedd yng Nghaergybi ac Amlwch. Mae prosiectau adnewyddu ar y gweill yng Nghanolfan Glanhwfa ac maent wedi cael eu cwblhau yn y Market Inn, Llangefni, drwy'r grant Canol Trefi. Mae grantiau wedi cael eu dyrannu i wella eiddo gwag cymwys, a lansiwyd peilot paentio blaen eiddo. Mae arolygon a chynlluniau adnewyddu wedi cael eu comisiynu ar gyfer safleoedd wedi'u targedu yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch.	Gwyrdd
Economi	Parhau i weithredu Cynllun Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn drwy sicrhau cyllid allanol gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)	Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid newydd i gefnogi'r gwaith adfywio yng Ngogledd yr Ynys, yn cynnwys £50k ar gyfer Cynllun Creu Lleoedd yn Amlwch a chyllid pellach ar gyfer datblygu'r Derfynell Forol. Mae nifer o arolygon ac astudiaethau wedi cael eu cynnal ar eiddo yn Amlwch ac mae nifer o brosiectau gwella wedi gael eu hariannu drwy brosiect 'Lle Da' y gronfa SPF. Cyflwynwyd cais am gyllid 3 blynedd gan yr NDA i gefnogi gweithgareddau adfywio.	Gwyrdd

Economi	Gweithio gyda Stena, Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgaais Gogledd Cymru i ddatblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn a sicrhau cyfleodd buddsoddi ar gyfer Porthladd Caergybi	Mae'r gwaith i sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn yn mynd rhagddo ac rydym wedi cyrraedd cerrig milltir allweddol, yn cynnwys dynodiad rhannol fel safle treth. Mae cynnydd yn dal i gael ei wneud gyda phrosiect Porth Caergybi o fewn y Fargen Twf. Mae Stena Line yn dal i ddatblygu'r cynllun hwn gyda chyfraniad gan y Cyngor.	Gwyrdd
Economi	Cyflawni rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Caergybi	Mae cynnydd sylweddol yn dal i gael ei wneud wrth gyflawni'r Rhaglen Ffyniant Bro yng Nghaergybi. Gellir gweld newid trawsnewidiol a gweledol ar y stryd fawr erbyn hyn wrth i nifer o brosiectau gael eu gwireddu. Mae'r rhain yn cynnwys y gwaith yng Nghanolfan Ucheldre, hen safle HSBC a'r Adeiladau Canolog, yr estyniad i ganolfan yr Empire a nifer o adeiladau a oedd mewn cyflwr gwael ar y Stryd Fawr. Mae'r gwaith yn Eglwys Cybi Sant ac Eglwys y Bedd yn mynd rhagddo ond cafwyd oedi oherwydd ymchwiliadau archeolegol ar y safle. Mae £15m wedi cael ei hawlio hyd yma gan Lywodraeth y DU wrth i'r rhaglen nesáu at ei 12 mis olaf.	Gwyrdd
Economi	Sefydlu 15 prosiect ar Ynys Môn a 10 prosiect rhanbarthol gydag arian o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (UKSPF)	Mae'r Cyngor wedi cyflawni 25 o brosiectau lleol a rhanbarthol o dan y Gronfa Ffyniant Bro, gan gefnogi datblygiadau cymunedol, sgiliau a chyflogaeth ledled Ynys Môn. Cafodd cronfa pontio o £5 miliwn ei sicrhau ar gyfer 2025 i helpu i ymestyn prosiectau allweddol am flwyddyn arall, tra bo'r cynllun Lluosi wedi derbyn nawdd ychwanegol yn sgil y tanwariant rhanbarthol, er mwyn rhoi hwb i rifiedd oedolion a chyfleoedd dysgu.	Gwyrdd
Economi	Ymgysylltu â busnesau lleol a mewnfuddsoddiadau posib i gefnogi cyflogaeth a ffyniant	Mae'r Cyngor yn dal i weithio â busnesau lleol a buddsoddwyr newydd i greu swyddi a denu buddsoddiadau hirdymor i Ynys Môn. Mae creu 'Porthladd Rhydd Ynys Môn Cyf' yn garreg filltir sylweddol, a bydd ei Fwrdd newydd yn arwain datblygiadau yn y dyfodol a sicrhau bod manteision economaidd yn cael eu gwireddu'n lleol.	Gwyrdd

Economi	Cwblhau'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (2023-2028)	Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Cyngor o dan y Cynllun Rheoli AHNE , yn cynnwys adfer cynefinoedd, mentrau awyr dywyll a chael gwared ar rywogaethau ymledol. Mae cyllid hefyd wedi cael ei ddefnyddio i wella mynediad y cyhoedd at natur mewn prif leoliadau fel Nant y Pandy, Llyn Maelog a Choed y Môr, ac mae llwybrau cylchol newydd wedi cael eu hyrwyddo gydag ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.	Gwyrdd
Economi	Croesawu 52 o longau mordeithio i'r ynys	Mae'r Cyngor yn dal i groesawu llongau mordeithio i Ynys Môn, ac mae'n gweithio â Cruise Wales, cyngorau tref a busnesau lleol i sicrhau bod ymwelwyr yn mwynhau eu hamser ar yr ynys. Mae'r teithiau hunan dywys newydd o amgylch y dref a'r gwelliannau i brofiad y cwsmer mewn atyniadau fel Oriel Ynys Môn yn helpu i ledaenu'r manteision economaidd ar hyd a lled cymunedau lleol.	Gwyrdd
Economi	Cydweithio â Llywodraeth Cymru i wella'r gweithgareddau sydd ar gael i ymwelwyr	Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i wella profiad ymwelwyr ledled Ynys Môn, gan fuddsoddi'r cymorth a dderbyniodd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro i wella llwybrau mynediad, manau Gwyrdd a gwarchodaeth natur.	Gwyrdd
Economi	Datblygu'r Rhaglen Tiroedd Llwyd a'i rhoi ar waith i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol yn cynnwys; safle Alwminiwm Môn, Rhosgoch, Octel (Amlwch) a Peboc, Llangefni	Mae'r Cyngor yn gweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol megis Peboc yn Llangefni, Alwminiwm Môn a Rhosgoch. Mae'r safleoedd tir llwyd yma'n cynnig cyfleoedd sylweddol o ran cyflogaeth a buddsoddi fel rhan o'r rhaglen Porthladd Rhydd ehangach.	Melyn
Newid Hinsawdd	Adolygu'r Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 a'i roi ar waith; cyhoeddi dashfwrdd i gasglu data ynglŷn ag allyriadau carbon ein hasedau mewnol a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar allyriadau carbon erbyn mis Medi 2024	Mae gwaith tuag at sero net y Cyngor yn unol â'r amserlen. Mae'r Dashfwrdd Sero Net PowerBI bellach yn fyw ar y system MônITor ar gyfer staff a chynghorwyr. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ei adroddiad blynyddol ar allyriadau carbon i Lywodraeth Cymru.	Gwyrdd

Newid Hinsawdd	Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy ychwanegu 13 o gerbydau carbon isel i'r fflyd (yn ddibynol ar gyfalaf a chyllid grant)	Mae'r Cyngor yn dal i foderneiddio ei fflyd cerbydau, ac mae ganddo 31 o gerbydau trydan ar hyn o bryd. Mae arbedion caffael wedi cael eu sicrhau drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, ac mae hyn wedi helpu i leihau allyriadau a chostau rhedeg ar draws y gwasanaethau.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Mabwysiadu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol CDLI) newydd – i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ac yna i Lywodraeth Cymru i'w gytuno	Mae Cytundeb Cyflawni diwygiedig y Cyngor ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith ar y gweill i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth i sicrhau bod y polisi cynllunio yn gadarn ac yn cyd-fynd ag anghenion lleol.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gosod systemau gwresogi carbon isel yn naw o adeiladau'r cyngor	Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn systemau gwresogi carbon isel mewn naw adeilad fel rhan o'r raglen Sero Net. Mae diweddariadau a phrofion technegol ar waith, ac mae £781,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei sicrhau i ehangu'r isadeiledd solar a gwella effeithlonrwydd ynni.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r cyngor	Cyfradd ailgylchu'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn yw 66%. Mae gwaith ar y gweill i gyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70%. Mae biniau ailgylchu ar gael ym mhob un o adeiladu'r Cyngor, yn cynnwys ysgolion. Mae'r cyngor wedi ailgylchu 47% ar gyfartaledd yn ystod 2024/25. Ar hyn o bryd mae hyn yn unol â'r disgwyliadau a bydd y gyfradd yn gwella wrth i fwy o bobl eu defnyddio.	Coch
Newid Hinsawdd	Gweithio gyda phartneriaid i yrru'r amcanion allweddol yn y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn eu blaen er mwyn gwella'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu	Mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni ei Gynllun Strategol Ailgylchu, ac mae'n parhau i ganolbwyntio ar wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff gweddilliol. Mae staff ychwanegol wedi cael eu penodi i gefnogi'r gwaith hwn ac mae opsiynau ar gyfer gwella'r gwasanaeth casglu yn cael eu datblygu er mwyn eu hystyried yn y dyfodol.	Melyn
Newid Hinsawdd	Sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth	Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau llywodraethiant i sicrhau bod pob penderfyniad yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth.	Melyn

	wrth wneud penderfyniadau drwy ddiweddarau templedi adroddiadau	Mae'r templed ymrwymadau Sgriwtini diwygiedig bellach yn cynnwys adran benodol ar Sero Net ac effeithiau amgylcheddol.	
Newid Hinsawdd	Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru): • rhoi chwe chynllun bach ar waith • datblygu achos busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr • datblygu achosion busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr	Mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd gyda'i brosiectau rheoli risg llifogydd ledled yr ynys. Mae gwaith ar y gweill i ddylunio a pharatoi achosion busnes ar gyfer cynlluniau mawr a bach, yn cynnwys Llanfairpwll, Porthaethwy, Llangefni, Benllech, Amlwch a Chaergybi, yn amodol ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.	Melyn
Newid Hinsawdd	Mabwysiadu a chyhoeddi strategaeth leol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd	Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth gan drigolion a phartneriaid.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Rhoi cynlluniau teithio lleol ar waith yn Amlwch ac Ynys Cybi, yn ogystal â gwella'r seilwaith rhwng Malltraeth a Llanfairpwll	Mae'r Cyngor yn parhau i wella llwybrau cerdded a seiclo ledled Ynys Môn. Mae'r gwaith rhwng Pont Marcwis a Malltraeth wedi cychwyn, ac mae gwelliannau ar y gweill i gyfeiriad Niwbwrch, Amlwch ac Ynys Cybi mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.	Melyn
Newid Hinsawdd	Penodi cyflenwr pwyntiau gwefru cerbydau trydan i osod pwyntiau gwefru ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid grant)	Mae'r Cyngor wedi sicrhau grant gwerth £500,000 i osod 23 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled yr ynys. Mae'r gwaith paratoi safleoedd yn mynd rhagddo'n dda, a bydd nifer o'r pwyntiau gwefru'n cael eu cwblhau yn hwyrach yn 2025 drwy Fframwaith Seilwaith Cerbydau Trydan newydd Llywodraeth Cymru.	Melyn

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	24 TACHWEDD 2025
Pwnc:	MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2025/26
Deilydd Portffolio:	ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID A BUSNES CORFFORAETHOL A PROFIAD CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	BETHAN HUGHES OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG
Ffôn:	01248 752663
E-bost:	BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU
Aelodau Lleol:	d/b
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
Argymhellion (i) Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26; (ii) Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2025/26, y manylir arnynt yn Atodiad CH; (iii) Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD. Rheswm Y sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar gyfer y gyllideb refeniw ar ddiwedd yr ail chwarter yw tanwariant o £1,707k (0.88%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 30 Medi 2025. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei grynhoi hefyd. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 2 yn anodd, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae rhai meysydd allweddol sy'n anodd eu rhagdybio a'u rhagweld mor gynnar â hyn yn y flwyddyn, a'r meysydd allweddol hynny yw:- 1. Newid yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, yn bennaf lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg all-sirol. 2. Cyllid grant a dderbynnir yn ystod y flwyddyn nad oedd yn hysbys. 3. Gwariant unwaith ac am byth nad oedd wedi cael ei rhagweld. 4. Anawsterau recriwtio a chadw staff sy'n arwain at fwy o swyddi gweigion nag a ragwelwyd. 5. Tywydd annisgwyl / heb ei ragweld. O ganlyniad i'r sefyllfa a ragwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £17.414m (8.91% o gyllideb refeniw net 2025/26) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hyn £7.642m yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell i'r Cyngor. Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn rhagweld tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.	
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.	

C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi.		
D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi, ond mae unrhyw newid o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael ei nodi yn yr adroddiad.		
Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i osod y strategaeth ariannol y tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2025/26 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r aelodau'r TA wedi cael copi drafft o'r adroddiad cyn hyn, a bydd unrhyw sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad terfynol.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.

3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 2 gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2025.
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
• Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2025/26 • Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2025/26 • Atodiad C - Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir fesul Gwasanaeth a'r Rhesymau • Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2025/26 • Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2025/26 • Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro ymgynghorwyr 2025/26 • Atodiad E - Cost Newid 2025/26		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)		
Cyllideb Refeniw 2025/26 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 27 Chwefror 2025 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2025).		

ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 2 2025/26**1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWDYD AR GYFER 2025/26**

1.1 Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:-

Tabl 1
Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2025/26

	£'000	£'000
Cyfanswm Gwariant Refeniw Wedi ei Gymeradwyo		
Diwygiadau i'r Gyllideb Ers Cymeradwyaeth	195,442	
Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor	(2,459)	
Cyllideb Gymeradwy Gyfredol ar gyfer 2025/26 (Net o Gronfeydd Wrth Gefn)		192,983
Cyllidwyd gan		
Cyllid Allanol Cyfun	135,881	
Debyd Treth Gyngor Safonol a Godwyd	52,843	
Treth Cyngor Premiwm ar Ail Gartrefi a Gwag	4,259	
Cyfanswm Cyllid 2025/26		192,983

2. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER Y GYLLIDEB AR DDIWEDD CHWARTER 1 2025/26

2.1 Mae amcangyfrif o'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd chwarter 2 wedi'i gynnwys yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol a Rhagwelir ar ddiwedd Chwarter 2

	2025/26 Cyllideb	Q2 Rhagolygon (o dan) / Drosodd	% Amrywiant	Q1 Rhagolwg	Symudiad
	£'000	£'000	%	(O dan) / Drosodd £'000	£'000
Cyllidebau Gwasanaeth	177,593	404	0.23	469	(65)
Cyllidebau Corfforaethol	17,849	(1,055)	(5.91)	(1,073)	18
Gwarchodfeydd Cyffredinol	(2,459)	0	0.00	0	0.00
Gwariant Refeniw Net	192,983	(651)	(0.34)	(604)	(47)
Cyfanswm Cyllid Allanol	135,881	0	(651)	0	0
Treth Gyngor Safonol	52,843	(565)	(1.07)	(514)	(51)
Premiwm Treth y Cyngor	4,259	(491)	(11.53)	(433)	(58)
Cyllid	192,983	(1,056)	(0.54)	(947)	(109)
Rhagolwg Net (o dan) / Drosodd	0	(1,707)	(0.88)	(1,551)	(156)

2.2 Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3, isod:-

Tabl 3
Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2026

Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith	Swm £'m	Pwrpas
Balans Agoriadol	(18,166)	Cronfa Ddata Gyffredinol ar 31 Mawrth 2024
Defnyddwyd I Gyllideb 2024/25	2,459	
Tan wariant rhagweladwy 2025/26	(1,707)	
Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor	(17,414)	

3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

3.1 Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod tanwariant o £1.707k yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r dadansoddiad fesul gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Nhabl 4, isod:-

Tabl 4
Dadansoddiad o'r Sefyllfa sy'n cael ei Ragweld ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth

	(Tan) / Gorwariant £'000	%
Addysg Ganolog	(231)	(4.51)
Diwylliant	100	6.08
Oedolion	(932)	(2.18)
Gwasanaethau Plant	1,350	7.41
Tai	(217)	(10.74)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	317	10.30
Priffyrdd	(274)	(3.24)
Busnes y Cyngor	254	11.36
TGCh	(263)	(8.18)
Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rh	500	0.00
Arall (cyfanswm y gwahaniaethau gwerth llai na £100k)	(200)	(6.14)
Cyfanswm y Gwahaniaethau - gor / (tan)wariant (heb gynnwys arian cyllido)	404	0.23

3.2 Mae'r prif resymau am yr amrywiant yn cael eu crynhoi yn Nhabl 5, isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Is-wasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

Tabl 5
Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Rheswm

	Amrywiant a Ragwelir £'000
Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau	3,032
Amrywiant mewn costau staffio sy'n codi o swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth	(909)
Newidiadau mewn prisiau contractau na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb a gymeradwywyd	(48)
Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd	(539)
Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm	(1,766)
Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau	(286)
Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol	23
Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol	86
Camgymeriadau yn y broses gosod cyllideb y gellir eu hadnabod yn rhwydd	20
Rhesymau amrywiol	791
CYFANSWM YR AMRYWIENT A RAGWELIR	404

3.3 Mae'r tabl uchod yn tynnu sylw at y ffaith mai'r prif bwysau cyllidebol y mae'r Cyngor yn dal i'w brofi yw canlyniad cynnydd yn y galw am wasanaethau, gyda phwysau cyllidebol o £3.032 miliwn yn deillio o hynny. Mae'r prif faes sy'n peri pryder dal o fewn y Gwasanaethau Plant, gyda chynnydd yn nifer y plant sy'n gorfod cael eu lleoli gyda darparwyr all-sirol a fod cost pob lleoliad yn cynyddu. Mae'r rhagolygon gorwariant ar gyfer chwarter 2 yn £1.462 miliwn. Mae tan wariant addysg allsirol yn parhau fodd bynnag mae sefyllfa'r gyllideb yn gallu newid yn gyflym. Mae'r sefyllfa o ran Gwasanaethau Oedolion yn gyffredinol wedi sefydlogi, fodd bynnag, mae amryw o orwario a tanwario cyfatebol o fewn y gyllideb. Mae'r gyllideb gyffredinol ar hyn o bryd yn ddigonol i ddiwallu lefel y galw. Gall cyfnod y gaeaf effeithio ar y rhagolygon yn dibynnu ar y math o aeaf a gawn.

3.4 Mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella oherwydd swyddi gwag, lle rhagwelir y bydd costau cyflog, ar ôl tynnu unrhyw gostau ychwanegol a achosir wrth gyflogi staff dros dro a staff asiantaeth, yn tanwario gan £909k, er bod problemau recriwtio yng Ngwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor wedi arwain at gostau asiantaeth yn uwch na'r gyllideb staffio sydd ar gael a rhagwelir gorwariant o £228k. Mae problemau o fewn i'r gwasanaeth Rheoleiddio Adeiladu hefyd wedi arwain at gostau staffio yn cynyddu ma hyn ynghyd a gostyngiad mewn galw am y gwasanaeth, yn arwain tuag at rhagolwg o orwariant o £250k, er bod hyn yn is na'r gorwariant rhagwelwyd yn flaenorol o £363k. Darperir rhagor o wybodaeth am gostau asiantaeth ym mharagraff 6 ac Atodiad D.

3.5 Mae rhagweld incwm a gynhyrchir drwy ffioedd a thaliadau bob amser yn anodd, yn enwedig mor fuan a hyn yn y flwyddyn ariannol, ond dangosir ar hyn o bryd y bydd yr incwm cyffredinol yn uwch na'r gyllideb gan £1.766 miliwn, gyda lefelau incwm Hamdden a Phrifyrdd yn llawer uwch na'r targed incwm. Mae gwaith yn parhau i glirio'r ôl-groniad o asesiadau ariannol ar gleientiaid gofal cymdeithasol, ac mae hyn wedi creu incwm ychwanegol sy'n uwch na'r lefel y gyllideb.

4. PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

4.1 Mae'r sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn cael ei ddangos yn Nhabl 6, isod:-

Tabl 6
Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2025/26

	2025/26 Cyllideb	Chw 2 Rhagolwg (O danodd) / Drosodd	%Gwahaniaeth	Rheswm am y Gwahaniaeth
	£'000	£'000	%	
Ardollau	5,276	0	0	Benthyca is ac enillion buddsoddi uwch Llwyth achosion is na'r disgwyl Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i gyflawni'r arbediad
Rhyddhad Cyfradd Dewisol	106	69	65.06	
Cyllid Cyfalaf	4,637	(1,022)	(22.05)	
Buddion a roddwyd	7,459	(102)	(1.36)	
Cyfraniad Gwasanaethau Cymorth gan CRT	(840)	0		
Arbedion l'w darganfod	(22)	0		
Cyffredinol & Eraill	822	0		
Defnyddio Gwarchodfeydd Cyffredinol	(2,459)	(2,459)		
TOTAL	14,979	(3,514)	(6.86)	

5. CASGLU'R DRETH GYNGOR

5.1 Mae cyllideb cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2024. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd a fu, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Yn hanesyddol, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a disgowntiau sy'n ddyledus iddynt. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £565k yn uwch na'r gyllideb.

5.2 Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Mae'r newid yn y rheolau cymhwysra yn gysylltiedig â threthi busnes ar gyfer llety hunanarlwyo yn golygu bod nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i gofrestr Y Dreth Gyngor, gan olygu fod mwy o eiddo yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi. O ganlyniad, rhagwelir gwarged o £491k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae risg sylweddol y bydd apeliadau'n cael eu penderfynu yn 2025/26 yn ymwneud ag eiddo hunanarlwyo a drosglwyddwyd o drethi busnes i'r Dreth Gyngor yn 2024/25. Er mwyn gwrthbwyso'r risg hon, mae £900k hefyd wedi ei roi mewn cronfa arian wrth gefn clustnodedig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25, fydd yn cael ei ddefnyddio i ad-dalu unrhyw gasgliadau i'r broses apelio.

6. CYLLIDBAU WRTH GEFN

6.1 Cyfanswm y cyllidebau wrth gefn gwreiddiol oedd £586k, oedd yn cynnwys grant o £2m mewn perthynas â chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr. Mae net y trosglwyddiadau i gyllidebau gwasanaeth a throsglwyddiadau i mewn o gronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi cynyddu'r gyllideb i £3.233 miliwn ar ddiwedd chwarter 2 (heb gynnwys y grant yswiriant gwladol). O'r cyllidebau wrth gefn hyn, mae £3.233 miliwn wedi'u hymrwymo. Mae dadansoddiad llawn wedi'i atodi yn Atodiad Ch.

7. COSTAU ASiantaeth AC YMGYNGHORWYR

7.1 Gwariwyd £746k ar staff Asiantaeth yn ystod y flwyddyn hyd yma. Roeddent yn cael eu cyllido o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion. Mae'r Gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £197k ar asiantau safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

7.2 Gwariwyd cyfanswm o £555k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2025, a chyllidwyd £345k o'r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad DD yn cynnwys crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth, ynghyd â manylion ychwanegol am y gwariant.

8. CRONFA COST NEWID

8.1 Hyd yma eleni, mae £72k wedi'i wario ar brosiectau unigol oedd i'w cyllido o'r Gronfa Cost Newid gyda £26 wedi wario yn ystod 2025/26. Cytunwyd ar bum prosiect, gyda chyfanswm y gyllideb ar gyfer y prosiectau yn cyrraedd £107k. Mae'r manylion llawn ar gael yn Atodiad E.

9. CASGLIADAU

9.1 Ar ddiwedd yr ail chwarter, rhagwelir tanwariant o £1.707 miliwn ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026. Mae llunio rhagolwg cywir o'r sefyllfa ariannol mor gynnar â hyn bob amser yn anodd, ac mae'r sefyllfa'n debygol o newid wrth i wasanaethau ddelio â materion a'r galw am wasanaethau yn ystod y flwyddyn yn enwedig gyda tymor y gaeaf o'm blaen.

9.2 Mae'r prif feysydd sydd heb eu datrys eto yn ymwneud â:-

- i. Cytunwyd ar y dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu (o fis Ebrill 2024) a yn Gorffennaf 2025. Mae'r ddarpariaeth a wnaed yn y gyllideb ar gyfer y dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn dysgu wedi cael ei chyfrifo ac fe oedd yn ddigonol i fodloni cynnig cyflog cyfredol y cyflogwyr o 3.20%. Tynnwyd £659k o'r gwasanaethau ac fe'i cymerwyd i'r cronfa neilltuol i dalu am bwysau chwyddiant yn y dyfodol.
- ii. Mae cynnydd cyflog o 4% wedi'i roi i Athrawon ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2025/26. Mae hyn yn uwch na'r hyn a ganiatawyd yn y setliad llywodraeth leol. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid grant i dalu'r gwahaniaeth. Gan ystyried Gwobr Cyflog NJC ac Athrawon a'r cyllid grant ychwanegol, mae'r canlyniad yn niwtral o ran cost i'r Awdurdod.

9.3 Mae'r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol yn destun pryder arbennig, gyda gorwariant rhagweledig o £1.350 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar y lefel bresennol o alw, ond mae'r galw'n amrywio yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol, e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth uchel ag anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau ond yn gwaethgu'r sefyllfa.

Wrth i ni symud drwy weddill y flwyddyn ariannol, bydd effeithiau'r uchod yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol, wrth i bethau ddod yn fwy clir.

9.4 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2025/26 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2026/27 a thu hwnt, gan y bydd yn tynnu sylw at yr angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welwyd yn 2025/26 ac i adlewyrchu'r galw am wasanaethau sy'n parhau i newid. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydiad cronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor, a bydd hyn yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau i helpu i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2026/27.

RHAGOLWG O'R ALLDRO REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH 2026 - CHWARTER 2

[illegible]

Tudalen 114

[illegible]

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2025/26 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2025/26 Ch2 Cyllideb hyd yma Q2 Budget Year to Date	2025/26 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed spend	2025/26 Ch2 Amrywiant Q2 Variance	2025/26 Ch2 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q2 Actual & Committed Spend	Ch2 : Q2 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2026 Estimated Expenditure to 31 March 2026	Ch2 : Q2 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2026 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2026 over/(under)	2025/26 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	2024/25 Gor/(Tan) Wariant Over/Underspend)
<u>Busnes y Cyngor</u> <u>Council Business</u>	2,236	1,137	1,428	291	25.63	2,490	254	11.36	1,930
<u>Costau Corfforaethol a</u> <u>Democrataidd</u> <u>Corporate & Democratic costs</u>	2,223	1,475	1,540	65	(4.37)	2,196	(27)	(1.21)	(2,624)
<u>Rheolaeth Corfforaethol</u> <u>Corporate Management</u>	873	437	421	(16)	(3.68)	868	(5)	(0.57)	740
Costau heb gyllideb, ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau <i>Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income</i>						500	500	0.00	
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau Total Service Budgets	177,593	88,874	88,909	35	(0.04)	177,996	404	0.23	(1,118)
Ardollau <i>Levies</i>	5,277	5,280	5,280	0	0.0%	5,277	0	0.00	(1)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Canolfan Hamdden Plas Arthur	850,000	17,800	0	17,800	2	350,000	(500,000)	(59)
Adnewyddu a Gwaith Trwsio – Llyfrgell Porthaethwy	17,000	0	0	0	0	0	(17,000)	(100)
Pwyntiau Gwefru Solar ar gyfer Ceir	844,711	81,983	0	81,983	10	844,711	0	0
Eiddo Buddsoddi i Arbed	15,596	0	0	0	0	15,596	0	0
Grant Gwres Carbon Isel – Swyddfeydd y Cyngor	23,900	0	0	0	0	23,900	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 231	376,850	0	0	0	0	376,850	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 249	1,348,608	0	0	0	0	1,348,608	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 250	2,643,719	0	0	0	0	2,643,719	0	0
Grant Gwres Carbon Isel - 251	988,773	0	0	0	0	988,773	0	0
Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus	279,574	0	0	0	0	0	(279,574)	(100)
CYFANSWM	7,951,316	161,242	0	161,242	2	7,154,742	(796,574)	(10)
Trawsnewid								
TGCh	598,085	90,966	102,900	193,866	32	598,085	0	0
Hwb TG	155,000	0	0	0	0	0	(155,000)	(100)
System Ffôn	31,776	0	0	0	0	31,776	0	0
CYFANSWM	784,861	90,966	102,900	193,866	25	629,861	(155,000)	(20)
Gwasanaethau Oedolion								
Canolfan Glanhwfa	599,644	212,116	0	212,116	35	599,644	0	0
ICF	118,275	0	0	0	0	118,275	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Brwynog	69,000	0	0	0	0	69,000	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Garreglwyd	514,000	92,837	0	92,837	18	514,000	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Haulfre	81,000	1,200	0	1,200	1	81,000	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Plas Crigyll	100,000	100,000	0	100,000	100	100,000	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Plas Mona	83,520	25,470	0	25,470	30	83,520	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Hen Reithordy	35,000	0	0	0	0	35,000	0	0
Adnewyddu a Gwaith Trwsio - Gors Felen	315,000	3,363	0	3,363	1	315,000	0	0
CYFANSWM	1,915,439	434,985	0	434,985	23	1,915,439	0	0
CYFANSWM	59,668,636	17,480,682	2,096,013	19,576,695	33	55,166,919	(4,501,717)	(8)

Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb

Cynllun	Cyllideb £	CYLLID							
		Grant £	Cronfa wrth gefn Grant Cyfalaf Gyffredinol £	Cronfa Derbyniadau Gyfalaf £	Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn £	Benthycia â chefnogaeth	Benthycia Digefnogaeth £	Cyfraniad Refeniw £	Benthyciad £
Pwyntiau Gwefru Solar ar gyfer Ceir	844,711								844,711
Grant Teithio Llesol 2025/26	2,908,979	2,908,979							
Grant Isadeiledd Bysiau 2025/26	208,000	208,000							
Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd 2025/26	165,750	165,750							
ULEV	166,600	166,600							
Ysgolion Bro (CFS)	208,800	208,800							
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	476,154	476,154							
Grant Galluogi 2025/26	198,030	198,030							
Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Cyfalaf	571,384	571,384							
Grant Mannau Chwarae 2025/26	110,824	110,824							
Grantiau ar Raddfa Fach	518,027	518,027							
Uned Gofal Plant Llanfechell	90,165	90,165							
Uned Gofal Plant Llangoed	46,336	46,336							
Ffens Plas Arthur	109,350	109,350							
THI Cam 2	205,000	205,000							
CCCTV – David Hughes ac Amlwch	50,000	50,000							
SPF Plas Arthur	350,000	350,000							
Cyllid	0								844,711
Cerbydau Trydan (EV) ac Isadeiledd Gwefru	53,764	53,764							
Cynllun Grantiau Cyfalaf Gofal Plant	380,000	380,000							
Trawsnewid Trefi – Terfynfa Morol Amlwch	920,000	920,000							
Trawsnewid Trefi Towns – Grant Creu Lle 2025/26	293,740	293,740							
Santes Fair – gwaith adeiladu	20,419	20,419							
Offer Ffitrwydd Caergybi	140,000				140,000				
Grant Isadeiledd Ymwelwyr	182,578	182,578							
CRT – diwygiad Ch2	1,492,000	2,182,291					(690,291)		
CRT – diwygiad Ch1	2,134,814	2,506,892					(7,695,571)	7,323,493	
	12,845,424	12,810,458	112,625	-	140,000	-	(8,385,862)	7,323,493	844,711

Newidiadau i'r cyllidebau / cynlluniau
ychwanegol wedi'u hychwanegu yn Ch2
- £3.483m

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	25 TACHWEDD 2025
Pwnc:	CYFRIF REFENIW TAI - MONITRO'R GYLLIDEB, CHWARTER 2 2025/26
Deilyddion Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID A BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER Y CYNGHORYDD C JONES - DEILYDD PORTFFOLIO TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (Est. 2601)
Awdur yr Adroddiad:	SÁRKA TIMAROVÁ
Ffôn:	
E-bost:	SarkaTimarova@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
1. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:- (i) Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 2 2025/26. (ii) Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26. 2. Cefndir (i) Gosodwyd y gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £6,291k. (ii) Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £24,521k. Mae cyllideb cyllid grant gwerth £9,173k yn gostwng y gyllideb net i £15,348k. (iii) Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £9,057k. Bydd £6,820k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £2,237k yn cael ei gyllido gan fenthyca allanol. (iv) Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian o'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i gyllido'r CRT. 3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025. 4. Trosolwg 4.1 Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 2 £276k yn well na'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir tanwariant o £404k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn adrannau 5 i 8 isod ac yn Atodiad A. 4.2 Mae cynnydd o £1,492k yn y gwariant cyfalaf, i £24,521k, a rhagwelir tanwariant o £2,465k ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr esbonnir yn adran 9 isod ac yn Atodiadau B a C. Mae incwm grantiau wedi cynyddu i £9,173k, ac mae disgwyl i'r cyllid gael ei wario'n llawn. 4.3 Mae'r diffyg a ragwelir (trwy gyfuno'r cyllidebau refeniw a chyfalaf) bellach yn £6,188k, £2,869k yn llai na'r gyllideb.	

5. Incwm

5.1 Ar ddiwedd chwarter 2, roedd incwm £122k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae diffyg o £156k yn yr incwm rhenti yn bennaf oherwydd bod nifer yr eiddo gwag yn uwch na'r disgwyl yn chwarter 1 o gymharu â'r gyllideb, ac yn rhannol oherwydd gwahaniaeth o ran amseru trosglwyddo eiddo newydd i'r stoc sydd ar gael i'w rentu hefyd, ond mae disgwyl i rai o'r materion yn gysylltiedig ag amseru gael eu hunioni wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, rhagwelir y bydd yr incwm yn unol â'r gyllideb gan fod disgwyl rhywfaint o incwm eithriadol yn gysylltiedig â thir a ffioedd yn ystod y flwyddyn.

6. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

6.1 Roedd gorwariant o £37k ar waith trwsio a chynnal a chadw ar ddiwedd chwarter 2. Y rheswm pennaf oedd gwariant ar eiddo gwag wrth newid tenantiaid. Bydd rhai o'r costau hyn yn cael eu hailasesu yn ystod y flwyddyn, a'u symud yn erbyn cyllideb gyfalaf SATC. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld gorwariant o £55k ar ddiwedd y flwyddyn.

6.2 Mae tanwariant o £1k ar wasanaethau a rennir a gwasanaethau yr ailgodir tâl amdanynt, sy'n cynnwys gwariant ar ardaloedd cymunol ac ardaloedd a rennir, torri glaswellt ac ati. Ar hyn o bryd, mae sawl achos lle mae'r amseru'n wahanol i'r disgwyl, ond dylai hyn sefydlogi yn ystod y flwyddyn. Roeddem yn disgwyl gorwariant o £10k ar ddiwedd y flwyddyn yn chwarter 1, ond mae'r sefyllfa wedi newid yn llwyr bellach yn ystod chwarter 2 ac, erbyn hyn, disgwylir tanwariant o £51k oherwydd bod costau Teleofal wedi gostwng ar ôl symud at ddarparwr gwahanol y llynedd.

6.3 Mae gwariant ar staff gweithredol £164k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 2, oherwydd swyddi gweigion. Mae gorbenion a gwariant arall £42k yn uwch na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd costau llogi sgipiau.

7. Gwariant ar Oruchwylio a Rheoli

7.1 Ar ddiwedd chwarter 2, roedd gwariant ar oruchwylio a rheoli £319k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r prif wahaniaethau'n ymwneud â gwahaniaeth amseru rhwng y gyllideb a gwariant gwirioneddol ar y dreth gyngor a chyfleustodau (gwresogi) a chostau pensiwn. Dylai'r rhan fwyaf o'r gwahaniaethau amseru gydbwyso yn ystod y flwyddyn; rydym yn rhagweld y bydd swyddi gweigion ac addasiad sylweddol i gyfraniadau pensiwn yn creu tanwariant o thua £219k yn erbyn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

8.1 Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau gwariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter 2, rydym yn rhagweld gorwariant bychan o £7k ar ddiwedd y flwyddyn.

9. Gwariant Cyfalaf

9.1 Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2025/26 yw £24,403k, ac mae'r gyllideb cyllid grant yn £9,173k. Mae'r tabl isod yn cronhoi'r cyllid grant a ragwelir:-

Ffynhonnell	Rhagolwg Chwarter 2 £
Y Gronfa Tai â Gofal (CGT)	568,648
Y Gronfa Gofal Integredig (ICF)	867,637
Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP)	1,035,665
Grant Tai Cymdeithasol	1,235,012
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	2,690,000
Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2025/26	2,775,712
Cyfanswm Cyllid Grant	9,172,674

- 9.1 Gwariant Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)** – Roedd y gyllideb wreiddiol o £4,983k yn dyrannu swm o £1,483k i fynd i'r afael â gwaith SATC a wrthodwyd gan denantiaid ac elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo, megis gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac ail-weirio systemau wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes. Ar ddiwedd chwarter 2, y swm a gyfalafwyd ar gyfer eiddo gwag yw £696k, ac mae disgwyl i symiau sylweddol pellach gael eu cyfalafu yn ystod chwarter 3 a 4. Roedd y gyllideb hefyd yn neilltuo £3,500k ar gyfer Blwyddyn 2 y rhaglen 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu ceginau sydd bellach dros 15 oed. Yn ôl y Gwasanaethau Tai, roedd perfformiad y ddau contractwr a benodwyd yn parhau i fod yn dda yn ystod chwarter 2, a gwariwyd swm o £3,030k. Mae'r ddau contractwr hefyd yn adnewyddu ceginau a gwaith yn gysylltiedig â SATC yn ôl y galw, pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo. Yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth, argymhellir dyrannu swm ychwanegol o £500k o gyllid cyfalaf i'w wario yn ystod 2025/26.
- 9.2 Gwariant Risg Tân** – Bwriedir gwario'r gyllideb o £500k ar sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005. Bydd y mesurau arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gosod drysau tân 1 awr newydd (FD60) mewn fflatiau ac uwchraddio systemau larymau tân mewn blociau o fflatiau. Gosodwyd y contract i adnewyddu drysau tân ar dendr a'i ddyfarnu yn ystod 2024/25, ac roedd gwariant o £200k erbyn diwedd chwarter 2. Os yw'r drysau newydd yn cael eu cyflenwi ar amser, mae'r Gwasanaethau Tai yn rhagweld ar hyn o bryd y caiff y gyllideb hon ei defnyddio'n llawn.
- 9.3 Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus** - Mae'r Gwasanaethau Tai yn disgwyl i'r galw am addasiadau canolig a mawr aros yn gyson, a bydd y gyllideb o £500k a neilltuwyd yn cyllido gwaith megis gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau. Y gwariant gwirioneddol ar ddiwedd chwarter 2 oedd £177k, ac mae ymrwymiad pellach o £212k wedi'i gadarnhau. Mae'r Gwasanaeth Tai'n rhagweld y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2025/26.
- 9.4 Gwariant Perfformiad Ynni** - Fel yr adroddwyd yn flaenorol, dechreuodd y Gwasanaethau Tai weithio ar raglen 5 mlynedd ar gyfer darparu mesurau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yn y tymor hwy yn ystod chwarter 4 2024/25. Yn ystod chwarter 2, gwelwyd cynnydd cadarnhaol ar y contract, sy'n cynnwys gosod systemau Solar PV a systemau Storio Batris ar draws y stoc dai ac mae'r Gwasanaethau Tai wedi neilltuo cyllideb o £3,300k ar gyfer y gwelliannau effeithlonrwydd ynni hyn yn ystod 2025/26. Y gwariant ar ddiwedd chwarter 2 oedd £1.312m. Yn ystod 2025/26, mae'r rhaglen hon wedi denu cefnogaeth ariannol gwerth £2,776k trwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth Tai'n disgwyl i'r gyllideb gael ei defnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.
- 9.5 Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd** – Neilltuwyd cyllideb gwerth cyfanswm o £3,000k ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw traddodiadol a gynlluniwyd, ac mae'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gyfer cynlluniau a ddyfarnwyd yn 2024/25 lle'r oedd y gwaith arnynt wedi dechrau'n barod. Mae'r ymrwymiad a ddygwyd ymlaen yn ymwneud yn bennaf â pharhau â gwaith yn Nhan y Bryn, Fali, a Chilgaint Morrison, Caergybi, lle'r oedd y gwaith wedi'i gwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 1. Mae'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl i'r gwaith adeiladu yn y Fali gael ei gwblhau'n ymarferol yn ystod chwarter 3, gyda'r nod o dendro Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd ar gyfer 20 eiddo mewn gwahanol leoliadau yn ystod chwarter 3. Bydd dyfarnu'r contract yn llwyddiannus yn ymrwymo'r gyllideb yn llawn ar gyfer 2025/26. Y gwariant ar ddiwedd chwarter 2 oedd £781k, ac roedd swm pellach o £842k wedi'i ymrwymo a'i gadarnhau. Ar ddiwedd chwarter 2, mae'r Gwasanaeth yn amcangyfrif tanwariant o £1,000k ar y gyllideb.
- 9.6 Gwariant ar Waith Amgylcheddol** – Mae cyllideb gwerth £500k wedi'i neilltuo ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn ystod 2025/26. Bydd cyfran o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau â'r gwaith dymchwel garejys a gynlluniwyd yn Llangefni, Moelfre ac Amlwch, sef garejys nad yw'n ymarferol eu cadw bellach. Mae'r Gwasanaethau Tai'n cadarnhau iddo dderbyn tendrau a bod contract wedi'i ddyfarnu ar gyfer dymchwel y garejys yma yn ystod chwarter 2. Cyhoeddir tendr pellach yn ystod chwarter 3 ar gyfer garejys a neilltuwyd i'w dymchwel yn ardal Caergybi. Nid yw'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl unrhyw wariant sylweddol ar uwchraddio gweithfeydd trin yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac mae'n rhagweld tanwariant o £200k.

9.7 Gwariant Contract Gwres Canolog - Yn ystod chwarter 1 2025/26, cwblhawyd y gwaith ymarferol ar gontract (CHC226) ar gyfer adnewyddu boeleri a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi neilltuo cyllideb gyfalaf o £200k ar gyfer 2025/26, a'r gwariant ar ddiwedd chwarter 2, yn cynnwys ymrwymïadau, oedd £104k. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddyfarnu unrhyw gontractau mawr pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac mae'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl tanwariant o £96k yn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

9.8 Adnewyddu Fflyd – Mae'r gyllideb yn neilltuo swm o £650k ar gyfer rhaglen dreigl er mwyn adnewyddu fflyd gerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau, yn bennaf y faniau a ddefnyddir gan weithwyr. Ymrwymwyd cyfanswm o £357k ar ddiwedd chwarter 1, a disgwylir derbyn 10 cerbyd newydd yn fuan yn chwarter 3.

9.9 Prynu Tai a Datblygu Eiddo Newydd - Mae cyllideb o £9,396k wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau sy'n cynyddu stoc y CRT y gellir eu rhentu:-

- **Prosiectau a gwblhawyd neu sydd bron â'u cwblhau**
Yn ystod chwarter 2, ychwanegwyd 16 uned at y stoc y gellir eu rhentu, a chyfanswm yr unedau hyd yma yw 24. Tai a adeiladwyd o'r newydd yn Stad y Bryn, Llanfaethlu, oedd yr unedau hyn, yn ogystal â thai oedd wedi cael eu prynu a'u hadnewyddu gan y CRT. Mae datblygiadau newydd yng Nghae Braenar, Caergybi, a safle hen Ysgol Niwbwrch yn mynd rhagddynt ac mae disgwyl iddynt ychwanegu 23 ac 14 uned, yn y drefn honno, i'r stoc y gellir eu rhentu yn ystod 2025/26.
- **Datblygiadau Eraill**
Mae dau dŷ newydd yn cael eu datblygu gan ddatblygwr allanol ym Mharc y Coed, Llangefni.
- **Cydweithio â'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Mae'r CRT yn cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar nifer o brosiectau sydd ar waith. Mae'r gwaith o ddatblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy yn wynebu oedi, ond disgwylir i rywfaint o waith ddigwydd yn 2025/26. Mae pedwar eiddo wedi cael eu prynu hefyd ac maent yn cael eu datblygu er mwyn diwallu anghenion y gwasanaethau cymdeithasol.
- **Prynu ac Adnewyddu Eiddo**
Mae gwaith yn 2025/26 yn canolbwyntio ar adnewyddu eiddo oedd wedi cael eu prynu'n barod, ac mae swm o £2,370k wedi'i ddyrannu er mwyn cyllido gwaith ar 15 uned fydd yn cael eu hychwanegu at y stoc y gellir eu rhentu yn ystod y flwyddyn, ond ni fydd y swm llawn yn cael ei wario eleni gan fod y gwaith wedi llithro.

Derbyniwyd caniatâd i brynu pum eiddo yn ystod chwarter 1, ac mae 5 eiddo arall yn cael eu prynu yn ystod chwarter 2, ar ôl derbyn dyraniad grant ychwanegol o dan y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru (LIC). Gan fod disgwyl i'r rhaglen TACP barhau yn y dyfodol, mae'r tîm datblygu yn asesu cyfleoedd pellach ar hyd a lled yr ynys.
- **Prosiectau newydd y mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud arnynt neu brosiectau sydd ar y gweill nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto**
Mae gwaith newydd gychwyn ar nifer o brosiectau, sef datblygiadau ym Mhlas Penlan yn Llangefni, Maes Mona yn Amlwch a safle hen Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Mae prosiectau sydd ar y gweill ond nad ydynt wedi derbyn caniatâd cynllunio eto yn cynnwys gwaith datblygu ac ailddatblygu ym Maes William Williams yn Amlwch, Tan y Foel yn Llannerch-y-medd, Ysgol y Parc yng Nghaergybi a Phencraig Mansions yn Llangefni. Dyrannwyd cyllideb o £300k yn 2025/26 ar gyfer gwaith yn gysylltiedig ag asesu potensial y safleoedd hyn ar gyfer prosiectau datblygu yn y dyfodol; rhagwelir gwariant o thua £100k erbyn diwedd y flwyddyn.

Bydd pob prosiect newydd yn cael eu hasesu'n ariannol a'u cymeradwyo yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor.

10. Balans y CRT

- 10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £7,976k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,820k o'r balans hwn, gan adael balans o £1,155k ar gyfer y gronfa wrth gefn, sef yr isafswm balans a nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Mae hyn gyfystyr â 5% o'r gyllideb incwm rhenti tai ar gyfer 2025/26. Ar chwarter 2, rhagwelir balans o £1,788k ar ddiwedd y flwyddyn.

11. Benthyciadau'r CRT

- 11.1** Ar ôl addasu'r gyllideb gyfalaf a grantiau cyfalaf, cynlluniwyd diffyg refeniw / cyfalaf net ar gyfer y flwyddyn yw £9,057k. Roedd yn cael ei gyllido gan £6,820k o gronfa wrth gefn y CRT a £2,237k o fenthycia allanol. Yn chwarter 2, rhagwelir diffyg o £6,187k, yn bennaf oherwydd tanwariant yn y gyllideb gyfalaf. Bydd y diffyg yn cael ei gyllido o gronfa llawn wrth gefn y CRT, ac ni fydd angen unrhyw fenthyciadau allanol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Bydd yr effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy.	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid, ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol

Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad. Ymgorfforwyd unrhyw sylwadau oedd ganddynt yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried a'u hymgorffori yn yr adroddiad.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn derbyn adroddiad ar ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
- Atodiad A - Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 1 2025/26 - Atodiad B - Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 1 2025/26 - Atodiad C - Cynlluniau cyfalaf adeiladu tai newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 1 2025/26		
Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2025-2054 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2025).		

CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2025/26

	Cyllideb Cyfredol 2025/26	Cyllideb a broffilwyd	Gwariant / (Incwm) yn Ch2	Amrywiant yn Ch2	Rhagolwg diwedd blwyddyn yn Ch2	Amrywiant ar ddiwedd y flwyddyn	Amrywinat a ragwelir yn Ch1	Newid o Ragolwg Ch 1
	£	£	£	£	£	£	£	£
Incwm								
Incwm rhent	(23,398,090)	(12,354,189)	(12,197,898)	156,291	(23,338,408)	59,682	-	59,682
Taliadau Gwasanaeth	(247,090)	(130,464)	(142,018)	(11,554)	(247,090)	-	(1,709)	1,709
Incwm Arall	(270,950)	(195,050)	(217,287)	(22,237)	(330,576)	(59,626)	(7,967)	(51,659)
Cyfanswm incwm	(23,916,130)	(12,679,703)	(12,557,204)	122,499	(23,916,074)	56	(9,677)	9,733
Gwariant	-	-	-	-	-	-	-	-
Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw	4,237,650	2,118,850	2,156,186	37,336	4,293,114	55,464	-	55,464
Gwaith Trwsio ymatebol	-	-	981,229	-	2,135,031	-	-	-
Gwaith a gynlluniwyd a chylchol	-	-	95,328	-	180,425	-	-	-
Arbeddau gwag	-	-	1,079,629	-	1,977,657	-	-	-
Gwasanaethau a rennir a rhai yr ailgodir tâl am	961,950	648,148	646,832	(1,316)	911,217	(50,733)	10,055	(60,788)
Costau gweithwyr gweithredol	2,391,820	1,194,416	1,030,256	(164,160)	2,204,469	(187,351)	(64,843)	(122,508)
Gorbenion a gwariant arall	647,990	336,588	378,749	42,161	639,091	(8,899)	(4,513)	(4,386)
Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw	8,239,410	4,298,002	4,212,023	(85,979)	8,047,890	(191,520)	(59,302)	(132,219)
Goruchwyllo a rheoli	-	-	-	-	-	-	-	-
Gweinyddu Rhenti	501,530	250,424	236,553	(13,871)	489,058	(12,472)	1,659	(14,132)
Cyfanogiad tenantiaid a chefnogaeth	914,300	450,206	423,904	(26,302)	884,968	(29,332)	(9,105)	(20,227)
Rheoli Stadau	768,290	383,706	334,910	(48,796)	730,928	(37,362)	(13,389)	(23,973)
Datblygu	260,190	129,992	139,331	9,339	295,209	35,019	32	34,987
Staff rheoli a thechnegol	1,821,650	883,420	838,329	(45,091)	1,709,113	(112,537)	(19,329)	(40,709)
Cefnogaeth busnes	1,632,820	817,236	622,839	(194,397)	1,570,012	(62,808)	(27,140)	(88,168)
Cyfanswm goruchwyllo a rheoli	5,898,780	2,914,984	2,595,866	(319,118)	5,679,288	(219,492)	(67,271)	(152,222)
Cyfanswm Gweithrediadau	(9,777,940)	(5,466,717)	(5,749,315)	(282,598)	(10,188,897)	(410,957)	(136,249)	(274,707)

	Cyllideb Cyfredol 2025/26 £	Cyllideb a broffilwyd £	Gwariant / (Incwm) yn Ch2 £	Amrywiant yn Ch2 £	Rhagolwg diwedd blwyddyn yn Ch2 £	Amrywiant ar ddiwedd y flwyddyn £	Amrywinat a ragwelir yn Ch1 £	Newid o Ragolwg Ch 1 £
Addasiadau diwedd blwyddyn								
Costau cyllido a darpariaeth ar gyfer drwg ddyledion	2,618,800	-	7,080	7,080	2,625,880	7,080	-	7,080
Ailgodi tâl o'r gwasanaethau canolog	842,820	-	-	-	842,820	-	-	-
Ailgodi tâl o'r gwasanaethau tai	25,130	-	-	-	25,130	-	-	-
Cyfanswm addasiadau diwedd blwyddyn	3,486,750	-	7,080	7,080	3,493,830	7,080	-	7,080
Cyfanswm refeniw (gwarged) / diffyg	(6,291,190)	(5,466,717)	(5,742,235)	(275,518)	(6,695,067)	(403,877)	(136,249)	(267,627)
Cyfrif gwariant cyfalaf								
Gwariant cyfalaf	24,520,814	-	10,149,295	-	22,055,671	(2,465,143)	-	-
Cyfrid grant derbyniadwy	(9,172,674)	-	-	-	(9,172,674)	-	-	-
Cyfraniadau eraill	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm cyfalaf (gwarged) / diffyg	15,348,140	-	10,149,295	-	12,882,997	(2,465,143)	-	-
Cyfrid diffyg cyfalaf gan								
Gwarged refeniw	(6,291,190)	-	-	-	(6,695,067)	(403,877)	-	-
Cronfa wrth gefn CRT	(6,820,303)	-	-	-	(6,187,930)	632,373	-	-
Benthyca digefnogaeth	(2,236,647)	-	-	-	-	2,236,647	-	-
	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm cyllido gwariant cyfalaf	(15,348,140)	-	-	-	(12,882,997)	2,465,143	-	-
Balans agoriadol y CRT	(7,975,679)	-	-	-	(7,975,679)	-	-	-
(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT	6,820,303	-	-	-	6,187,930	(632,373)	-	(632,373)
Balans cau Cronfa wrth Gefn y CRT	(1,155,376)	-	-	-	(1,787,749)	(632,373)	-	(632,373)

	Cyllideb flynyddol 2025/26	Gwariant Ch 2	Rhagolwg diwedd blwyddyn	Amrywiant diwedd blwyddyn	Rhagolwg diwedd blwyddyn yn Ch1	Amrywiant a ragwelir hyd at Ch1
	£	£	£	£	£	£
Contract Gwres Canolog	200,000	89,190	104,000	(96,000)	200,000	(96,000)
Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd	3,000,000	780,807	2,000,000	(1,000,000)	3,000,000	(1,000,000)
Gwella Perfformiad Ynni	3,300,000	1,312,253	3,300,000	-	3,300,000	-
Gwaith Amgylcheddol	500,000	9,020	300,000	(200,000)	500,000	(200,000)
Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd	10,387,814	3,853,826	9,218,671	(1,169,143)	9,395,814	(177,143)
Addasiadau Sector Gyhoeddus	500,000	177,202	500,000	-	500,000	-
Risg Tân	500,000	199,944	500,000	-	500,000	-
SATC	1,483,000	696,340	1,483,000	-	1,483,000	-
Rhaglen Adnewyddu Ceginau	4,000,000	3,030,713	4,000,000	-	3,500,000	500,000
Adnewyddu Fflyd	650,000	-	650,000	-	650,000	-
Cyfanswm	24,520,814	10,149,295	22,055,671	(2,465,143)	23,028,814	(973,143)

Cynlluniau / Prosiectau	Nifer yr unedau ychwanegol	Cyllideb 2025/26 £	Gwariant Ch2 £	Rhagolwg diwedd blwyddyn £	Amrywiant diwedd blwyddyn £	Rhagolwg diwedd blwyddyn yn Ch1 £	Amrywiant a ragwelir hyd at Ch 1 £
Anheddau newydd eu hadeiladu							
Safle Hen Ysgol Niwbwrch	14	1,427,530	679,690	1,427,530	-	1,427,530	-
Cae Braenar, Caergybi	23	1,535,707	432,215	1,535,707	-	1,535,707	-
Parc y Coed, Llangefni, Cam 2	2	293,200	183,639	293,200	-	293,200	-
Stad y Bryn, Llanfaethlu	10	562,736	479,360	562,736	-	562,736	-
Plas Alltran, Caergybi	4	-	-	-	-	-	-
Pryunu eiddo cyfreddol							
Prynu	10	2,312,356	657,030	2,312,356	-	1,438,356	874,000
Adnewyddu	15	2,370,000	836,142	1,786,142	(583,858)	2,370,000	(583,858)
Cydweithrediad â Gwasanaethau Cymdeithasol	4	718,648	424,945	701,000	(17,648)	600,648	100,352
Gofal Ychwanegol Porthaethwy	73	867,637	128,016	500,000	(367,637)	867,637	(367,637)
Prosiectau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio		300,000	32,789	100,000	(200,000)	300,000	(200,000)
Cyfanswm	155	10,387,814	3,853,826	9,218,671	(1,169,143)	9,395,814	(177,143)

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	25 TACHWEDD 2025
Pwnc / Testun:	SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2026/27
Deilydd(ion) Portffolio:	CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 01248 752601 rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	AMHERTHNASOL
A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	

Rwy'n argymhell fod y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniadau isod:-

1. Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2026/27, sef **31,705.67** (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o Sylfaen y Dreth Gyngor at y diben yma - Rhan E6).
2. Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni am y flwyddyn 2026/27 (gweler **Atodiad A** ar gyfer y cyfrifiad o sylfaen y dreth – Rhan E5).
3. Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (SI1995/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygiad) 2016, y rhain yw'r cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2026/27 sef **33,887.44**, ac am y rhannau hynny o'r ardal sydd wedi eu rhestru isod:-

Amlwch	1,596.26
Biwmares	1,177.85
Caergybi	4,134.77
Llangefni	2,164.10
Porthaethwy	1,512.10
Llanddaniel-fab	386.37
Llanddona	435.66
Cwm Cadnant	1,235.84
Llanfair Pwllgwyngyll	1,333.25
Llanfihangel Ysceifiog	714.12
Bodorgan	494.92
Llangoed	698.55
Llangristiolus a Cherrigceinwen	655.90
Llanidan	432.82
Rhosyr	1,096.44

Llaneilian	652.60
Llannerch-y-medd	554.69
Llaneugrad	209.68
Llanfair Mathafarn Eithaf	2,082.80
Cylch y Garn	446.48
Mechell	601.70
Rhos-y-bol	484.65
Aberffraw	327.15
Bodedern	456.21
Bodffordd	417.58
Trearddur	1,584.29
Tref Alaw	276.93
Llanfachraeth	240.24
Llanfaelog	1,476.95
Llanfaethlu	306.81

Penmynydd	249.00
Pentraeth	627.60
Moelfre	715.20
Llanbadrig	736.08
Llanddyfnan	536.58

Llanfair-yn-Neubwll	596.82
Y Fali	1,077.66
Bryngwran	369.54
Rhoscolyn	410.32
Trewalchmai	380.93

RHESYMAU A CHEFNDIR

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Anheddau'r Dreth Gyngor (CT1 v.1.0) 2026/27 yn seiliedig ar nifer yr eiddo mewn bandiau amrywiol ar y rhestr brisio ar 31 Hydref 2025 a chrynoir gan yr Awdurdod dan Ran 22B (7) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'r cyfrifiadau yn cymryd i ystyriaeth disgowntiau, eithriadau a phremiymau a hefyd newidiadau i'r rhestr brisio sy'n debygol yn ystod 2026/27.

Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn, fel awdurdod bilio, gyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer ei ardal ac ar gyfer gwahanol rannau o'i ardal a rhaid rhoi gwybod am y symiau hyn i'r cyrff sy'n codi praeseptau ac ardollau erbyn 31 Rhagfyr 2025. Eleni, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y wybodaeth i bwrpas gosod y Grant Cynnal Refeniw erbyn 14 Tachwedd 2025, ac i bwrpas pennu'r dreth (wedi cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith) erbyn 9 Ionawr 2026.

Mae'r cyfrifiadau yn **Atodiad A** yn seiliedig ar gadarnhau disgownt o ddim ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C; mae'r premiwm o 100% ar dai gwag hirdymor a phremiwm o 100% ar ail gartrefi ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar fwriad y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref 2021 i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi (i'w gadarnhau gan y Pwyllgor Gwaith). Mae'r cyfrifiadau hefyd yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, y bydd ei gynllun lleol cyfredol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau am flynyddoedd dilynol heblaw ei fod yn cael ei newid yn sylweddol. Am 2026/27, dim ond yr uwchraddio arferol i'r budd-daliadau sy'n cael ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gwrdd yn llawn â chostau cynllun cenedlaethol blaenorol y DU, ond bydd costau oherwydd baich achosion ac / neu gynydd yn y Dreth Gyngor yn syrthio ar gynghorau lleol.

SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER CYFRIFO'R GRANT CYNNAL REFENIW

Bydd cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D, cyn addasu ar gyfer y gyfradd gasglu (ac sy'n cynnwys lwfans ar gyfer eiddo sy'n eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn), yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r hawliadau ar gyfer Grant Cynnal Refeniw (GCR) 2026/27. Mae'r cyfanswm yma, sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r GCR, yn eithrio'r addasiadau am breimymau a'r disgowntiau a roddir gan rhai awdurdodau ar gyfer eiddo Dosbarthiadau A, B a C (nid yw hyn yn effeithio ar Ynys Môn gan na roddir disgowntiau o'r fath). Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 31,705.67 (i'w gymharu â 31,455.15 ar gyfer 2025/26). Mae hyn yn gynydd o 0.80%.

SYLFAEN Y DRETH AT DDIBEN PENNU'R DRETH

Mae'r cyfanswm y disgownt cyfwerth â band D sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben pennu'r dreth wedi cael ei addasu gan wneud lwfans ar gyfer methu â chasglu, sy'n parhau i fod yn 1.5% a, hefyd, sy'n cynnwys lwfans ar gyfer eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Cyfrifir y ffigwr yma i fod yn 33,887.44. Nodir, felly, bod y ffigyrau a nodir dan argymhelliad 3 yn cynnwys yr addasiadau am breimymau.

Cyfanswm y sylfaen arfaethedig am 2026/27 at ddiben pennu'r dreth yw 33,887.44. Mae hyn yn cymharu â 33,472.17 am 2025/26, ac yn gynydd o 1.24%. Mae nifer o ffactorau wedi effeithio ar sylfaen y dreth, yn cynnwys nifer yr eiddo newydd a ragwelir a fydd yn cael eu hychwanegu i'r gofrestr Dreth Gyngor yn 2026/27, nifer yr eithriadau a disgowntiau a roddir a'r nifer a fydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag ac ailgartrefi a chanran y premiwm. Mae'r cynnydd yn y trothwy gosod ar gyfer eiddo hunan-arlwyo i'w gynnwys ar gofrestr trethi annomestig, wedi arwain at dros 200 o eiddo yn cael eu trosglwyddo i'r gofrestr Dreth Gyngor ac mae hyn wedi cynyddu sylfaen y dreth mwy nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo gwag hirdymor am 2026/27 yn 440.87, o'i gymharu â 422.35 am 2025/26, ac mae hyn o ganlyniad i gynnydd o 24 yn nifer yr eiddo gwag sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm eiddo gwag.

Mae sylfaen y dreth ar gyfer ail gartrefi am 2026/27 yn 2,215.46, o'i gymharu â 2,074.39 am 2025/26. Mae cyfanswm y tai sy'n destun y premiwm ar hyn o bryd wedi cynyddu 173 o eiddo, yn bennaf oherwydd trosglwyddo eiddo hunan-arlwygo o'r gofrestr trethi annomestig, ond mae eiddo eraill hefyd yn trosglwyddo i mewn ac allan o fod yn destun y premiwm ail gartrefi.

Mae'r newid yn sylfaen y dreth yn effeithio ar bwynt cychwynnol y Cyngor ar gyfer y gyllideb refeniw am 2026/27, ac fe ymdrinnir â hyn yn fanylach mewn adroddiadau dilynol ar y gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, i grynhoi, bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r Dreth Gyngor safonol yn cynhyrchu £708k mwy o refeniw (yn seiliedig ar y Dreth Gyngor a godwyd yn 2025/26), ond bydd hyn yn arwain at ostyngiad o £422k mewn Cyllid Allanol Cyfun (CAC) gan Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer 2025/26 a'r un lefel dybiedig o Dreth Gyngor Band D â 2025/26). Bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo gwag yn arwain at gynnydd o £32k yn yr incwm a gynhyrchir gan y premiwm eiddo gwag, a bydd y cynnydd yn nifer yr eiddo sydd yn ddarostyngedig i'r premiwm ail gartrefi yn cynhyrchu £241k mwy o incwm.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae disgresiwn gan y Cyngor llawn, dan reoliadau a wnaed dan Rhan 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, wedyn, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i osod disgownt i ddosbarthiadau penodedig o anheddau (yn bennaf tai haf ac ail gartrefi (Dosbarthiadau A a B)). Wrth i hyn gael ei gyflwyno, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim i'r ddau ddosbarth penodedig A a B, ac mae'r penderfyniad wedi ei gadarnhau yn flynyddol ers hynny. Ym mis Mawrth 2007, ac ar argymhellion y Pwyllgor Gwaith, penderfynodd y Cyngor llawn osod disgownt o ddim ar Ddosbarth Penodedig C (rhai mathau o eiddo gwag hirdymor) a hynny am y tro cyntaf, ac mae wedi gwneud hynny'n flynyddol ers hynny.

Byddai rhoi disgownt o 25%, 50% neu 100% yn groes i bolisi'r Cyngor llawn a gwrthodwyd yr opsiwn.

Bu'r Cyngor llawn, ar 27 Chwefror 2019, bennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar eiddo gwag hirdymor a phremiwm o 100% ar ail gartrefi o'r 1 Ebrill 2024. Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad hynny.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Hyd 2004, y Cyngor llawn oedd yn gyfrifol am y cyfrifiad hwn. Bellach, mae'r swyddogaeth hon wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o swyddogaethau sydd wedi cael eu neilltuo i'r Cyngor llawn. Fodd bynnag, y Cyngor llawn, yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith, sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â disgowntiau a phremiymau, ynghyd â phennu Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r modd y cafodd sylfaen y dreth ei gyfrifo yn cymryd i ystyriaeth y polisi cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ynghylch caniatáu disgowntiau i ddosbarthiadau penodedig A, B a C, ynghyd â pholisi'r Cyngor llawn ar ganiatáu gostyngiad hyd at 100% yn y Dreth Gyngor i'r rheiny sy'n gymwys dan gynllun lleol y Cyngor.

Mae'r cyfrifiad yma a'r argymhellion yn unol â'r penderfyniad yna a hefyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2019, wedi pennu premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar dai gwag hirdymor. Cafodd y penderfyniad i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 100% o 1 Ebrill 2024 ei gadarnhau gan y Cyngor llawn ar 15 Mawrth 2024.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Bydd y cyfrifiad o sylfaen y dreth yn galluogi'r Cyngor llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2026/27.		
DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Bydd y penderfyniad yn effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor a bydd goblygiadau'r penderfyniad hwn ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hystyried wrth i broses y gyllideb refeniw fynd rhagddi.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-	Amherthnasol.
3	A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy-	Amherthnasol.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Byddwn yn ymgynghori â dinasyddion Ynys Môn ar y cynigion ar gyfer y gyllideb maes o law.
5	Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg	Amherthnasol.
E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Dim sylw ychwanegol.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Awdur yr adroddiad.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Dim sylw ychwanegol.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol.
5	Eiddo	Amherthnasol.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol.
7	Caffael	Amherthnasol.
8	Sgriwtini	Amherthnasol.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.
F - Atodiadau:		
Atodiad A : Cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor 2026/27		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):		
Nodiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer arweiniad ar Anheddau Dreth Gyngor (CT1) 2026/27		

CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH GYNGOR 2026/27

	BAND	A*	A	B	C	D	E	F	G	H	I	CYFANSWM
Rhan A	ANHEDDAU TRETHADWY											
A.1	Holl Anheddau Trethadwy		4,706	6,678	6,961	7,262	5,419	2,729	1,060	164	54	35,033
A.2	Anheddau sy'n derbyn gostyngiad anabledd		10	42	55	99	91	55	14	9	6	381
A.3	Cyfanswm yr anheddau trethadwy wedi'i addasu (gan gymryd i ystyriaeth ostyngiadau anabledd)	10	4,738	6,691	7,005	7,254	5,383	2,688	1,055	161	48	35,033
Rhan B	ADDASIADAU DISGOWNT A PHREMIWM											
B.1	Anheddau heb ddisgownt neu bremiwm (gan gynnwys eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi heb ddisgownt neu bremiwm)	6	1,738	3,423	3,856	4,440	3,531	1,878	724	99	31	19,726
B.2a	Anheddau gyda disgownt o 25% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi)	4	2,744	2,957	2,645	2,181	1,396	541	184	25	6	12,683
B.2b	Anheddau gyda disgownt o 50% (ac eithrio eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi)	0	8	10	15	12	10	5	12	4	1	77
B.3a	Anheddau gyda disgownt amrywiol ac eithrio 25% neu 50%	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
B.3b	Anheddau gyda disgownt eiddo gwag hirdymor neu ail gartref		0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
B.3c	Anheddau gyda phreмиwm eiddo gwag hirdymor neu ail gartref		248	301	489	621	446	264	135	33	10	2,547
B.4	Cyfanswm yr anheddau a addaswyd sydd yn daladwy	10	4,738	6,691	7,005	7,254	5,383	2,688	1,055	161	48	35,033
B.5	Holl ddisgowntiau newidiol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
B.6	Addasiad disgownt am eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
B.7	Addasiad premiwm am eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi	0	248.0	301.0	489.0	621.0	446.0	264.0	135.0	33.0	10.0	2,547.0

	BAND	A*	A	B	C	D	E	F	G	H	I	CYFANSWM
Rhan C	CYFRIFIAD O ANHEDDAU TRETHADWY GYDA DISGOWNTIAU A PHREMIYMAU											
C.2	Cyfanswm anheddau gan gynnwys disgowntiau a phremiymau	9	4,296	6,248	6,825	7,324	5,475	2,814	1,138	186	56	
C.3	Cymhareb â Band D	5/9	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9	
C.4	Cywerthoedd Band D (wedi'u talgrynnu i ddau le degol)	5.00	2,864.00	4,859.36	6,066.89	7,323.75	6,691.67	4,065.03	1,896.67	371.50	130.67	34,274.53
C.7	Cyfanswm anheddau gostyngedig ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref	9	4,048	5,947	6,336	6,703	5,029	2,550	1,003	153	46	
C.8	Cywerthoedd Band D ac eithrio addasiad hirdymor gwag ac ail gartref	5.00	2,698.67	4,625.25	5,632.22	6,702.75	6,146.56	3,683.69	1,671.67	305.50	107.33	31,578.64
Rhan E	CYFRIFO SYLFAEN Y DRETH GYNGOR											
E.1	Anheddau Trethadwy : cywerthoedd Band D (yn unol â C.4)											34,274.53
E.2	Cyfradd gasglu (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol)											98.50%
E.3	= E1 x E2 (wedi'i dalgrynnu i ddau le degol)											33,760.41
E.4	Anheddau Dosbarth O wedi'u heithrio : cywerthoedd Band D (Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn)											127.03
E.5	Sylfaen y Dreth Gyngor at ddiben pennu'r dreth (E.3 + E.4)											33,887.44
E.5b	Anheddau trethadwy gostyngedig ac eithrio addasiad eiddo gwag hirdymor ac ail gartref (yn unol â C.8)											31,578.64
E.6	100% o Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw (E.5b + E.4)											31,705.67

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	Tachwedd 2025
Pwnc:	Rhaglen Cysylltu a Gwaith
Deiliad(iaid) portffolio:	Y Cyngorydd Gary Pritchard, Arweinydd a Deiliad Portffolio Datblygu Economaidd
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Christian Branch – Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio Gwasanaethau a Datblygu Economaidd
Awdur yr adroddiad:	Tudur H. Jones – Prif Swyddog Datblygu Economaidd
Aelodau lleol:	Yn berthnasol i bawb

A – Argymhellion a rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

R1 nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth ddatblygu cynllun darparu rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Rhaglen Cysylltu â Gwaith 2025-2030.

R2 cytuno i ymrwymo i Gytundeb Cydweithredu gyda Chyngor Sir Ddinbych fel y corff arweiniol ar gyfer Gogledd Cymru.

R3 cytuno i gyflwyno rhan Ynys Môn o Gynllun Darparu Gogledd Cymru i Gyngor Sir Ddinbych i'w hanfon ymlaen i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

R4 dirprwyo'r cam o dderbyn y cytundeb cyllido Cysylltu â Gwaith i'r Pennaeth Gwasanaeth a Swyddog Adran 151.

R5 ymrwymo i gytundeb grant gyda Môn CF Ltd i ddarparu'r Rhaglen Cysylltu â Gwaith ar ran yr Awdurdod.

1. Rhesymau

Mae'r Rhaglen Cysylltu â Gwaith yn rhaglen genedlaethol ac yn rhan o agenda Get Britain Working Llywodraeth y DU. Dyma'r newid mwyaf i gymorth i gael gwaith ers cenhedlaeth. Mae'n dod â sgiliau ac iechyd ynghyd i gael mwy o bobl yn ôl i waith cynaliadwy, gan weithio mewn ffordd ddatganoledig gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Nod y rhaglen yw darparu atebion lleol i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, yn enwedig lle mae'n cael ei yrru gan anabledd a salwch, ond mae hefyd yn anelu at gefnogi'r grwpiau hynny sydd â rhwystrau cymhleth i weithio fel cyn-filwyr, gofawyr, ffoaduriaid, pobl ddigartref, rhai sydd â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, dioddefwyr cam-drin domestig a chyn-droseddwy.

Cytunwyd mewn cyfarfod o Brif Weithredwyr y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel y Corff Atebol ar ran Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Sefydlwyd gweithgor o swyddogion awdurdodau lleol ac mae'n cyfarfod bob pythefnos i

ddatblygu'r rhaglen gyda'r bwriad o gyflwyno Cynllun Darparu i'r Adran Gwaith a Phensiynau gyda'r nod o'i gymeradwyo erbyn diwedd mis Rhagfyr a dechrau ei gyflwyno ym mis Ionawr 2026 hyd at fis Mawrth 2030. Ar Ynys Môn mae targed i gefnogi 313 o gyfranogwyr erbyn mis Mawrth 2030 ac mae'n rhaid i 50% o'r rhain sicrhau eu bod yn cael swydd barhaol. Mae'r gyfradd drosi hon yn sylweddol uwch na'r 30% a ddisgwylir gan Raglenni presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd yn her ei darparu o ystyried anghenion cymhleth y cyfranogwyr.

Y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Cysylltu â Gwaith yn genedlaethol yw £3,700 ar gyfer cofrestru ar y rhaglen, sy'n cyfateb i £1.158M dros oes y rhaglen ar Ynys Môn, fodd bynnag, ar ôl didynnu costau Tîm Rhanbarthol Sir Ddinbych, mae'n gostwng i £948K gyda phroffil blynyddol penodol. Mae'r gost net o £3,029 y pen o'i gymharu â'r cymorth dwys sydd ei angen gan y buddiolwyr yn gymharol isel. Ni fydd cyllidebau blynyddol yn cael eu dwyn ymlaen.

Er bod natur y rhaglen a'r model a fydd yn cael ei ddefnyddio i'w darparu wedi'i nodi ar lefel genedlaethol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, mae sut mae'n cael ei chyflawni a chan bwy, yn ôl disgresiwn yr awdurdodau lleol i benderfynu beth fydd yn gweithio orau yn eu hardal leol eu hunain.

Ar hyn o bryd mae Môn CF yn darparu Cymunedau am Waith a Mwy ar ran yr Awdurdod Lleol a'r Rhaglen Ailgychwyn ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau (trwy Serco) yn ogystal â darparu rhaglen cymorth gwaith a chymorth mewn gwaith yn uniongyrchol drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Ar wahân i JCP, nhw yw'r prif ddarparwr gwasanaethau cymorth gwaith ar Ynys Môn a hynny ers nifer o flynyddoedd.

